

Teithiau Gwrth-hiliaeth mewn Amgueddfeydd

Rhifyn Arbennig

Anti-racist Journeys in Museums

Special Edition

Autumn 2024



Cyflwyniad

Trawsnewid addysg amgueddfeydd yng Nghymru: Taith tair blynedd gyda GEM Cymru

Dros y tair blynedd diwethaf, mae GEM Cymru wedi arwain rhaglen gynhwysfawr i gefnogi addysgwyr amgueddfeydd wrth iddynt groesawu'r cwricwlwm newydd i Gymru a gwreiddio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn eu harferion bob dydd. Daeth y cynllun hwn i'r amlwg o'r alwad rymus am fwy o gynwysoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol a ddaeth i'n bywydau yn 2020. Gyda chefnogaeth £4.5 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru, dechreuodd sefydliadau ar brosiectau a fyddai'n arwain at newid hirdymor ac a oedd yn rhoi lle blaenllaw i brofiad bywyd lleiafrifoedd ethnig.

Fel rhan o hyn, ymunodd cyfranogwyr â GEM Cymru ar daith o gydweithio, dysgu a thwf, wrth i ni archwilio dulliau arloesol o greu profiadau amgueddfa addysgol mwy cynhwysol i bawb. Mae'r ffocws drwyddi draw wedi canolbwyntio ar gyflawni ymarferol a newid cynaliadwy y gellid ei roi ar waith ni waeth beth yw'r gyllideb. Mae'r astudiaethau achos a gyflwynir yma yn dangos y dulliau arloesol a'r gwersi gwerthfawr a ddysgwyd o'r gwaith hwn.

Blwyddyn 1: Cofleidio'r cwricwlwm newydd i Gymru

Roedd ein blwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar chwalu dirgelwch y cwricwlwm newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar mewn ysgolion yng Nghymru. Drwy gyfres o weithdai ar-lein, buom yn ymchwilio i ddatblygiadau fel y chwe Maes Dysgu a Phrofiad newydd, sy'n chwalu ffiniau pynciau traddodiadol, gan dynnu sylw at gyfleoedd i amgueddfeydd ehangu eu hymgysylltiad ag ysgolion. Gwnaethom archwilio sut i ymgorffori themâu a phrofiadau lleiafrifoedd ethnig mewn addysg amgueddfeydd, darparu llwyfan i unigolion amrywiol rannu eu profiadau bywyd, ac archwilio enghreifftiau o arferion gorau ar gyfer ysbrydoliaeth.

Blwyddyn 2: Dyfnhau dealltwriaeth a meithrin sgiliau

Ym mlwyddyn dau, gwnaethom drefnu sesiynau hyfforddi rhyngweithiol ar gysyniadau allweddol fel cymhwysedd diwylliannol, deall hiliaeth, a chyflwyno arferion gwrth-hiliol mewn lleoliadau addysgol. Fe wnaethom wahodd siaradwyr gwadd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i rannu eu harbenigedd ac i gymryd rhan mewn deialog agored gyda chyfranogwyr i annog dealltwriaeth ddyfnach o heriau a chyfleoedd.

Er mwyn darparu canllawiau mwy penodol ac ymarferol, fe wnaethom lansio cyfres o sesiynau ateb "Archwiliad Dwfn, Datrysiaid Mawr". Roedd y gweithdai awr hyn yn mynd i'r afael â phynciau penodol, fel taflenni gweithgareddau cynhwysol, rheoli amrywiaeth mewn ymweliadau addysgol, symud y tu hwnt i symboleiddiaeth, a gwreiddio etifeddiaeth barhaol o gynhwysiant. Roedd y rhain yn cael eu harwain gan arbenigwyr pwnc, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn cael cyngor arbenigol o safbwyntiau amrywiol.

Daeth y flwyddyn i ben gyda sesiynau a oedd yn crynhoi'r hyn a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar strategaethau ymarferol ar gyfer darparu rhaglenni addysg gwrth-hiliol parhaus, a datblygu trywyddion clir ar gyfer nodi arferion gorau, adnoddau a phartneriaid.

Blwyddyn 3: Ysbrydoliaeth fyd-eang a thwf parhaus

Yn y flwyddyn olaf, gwnaethom ehangu ein gorwelion gyda gweminar ar "Ysbrydoliaeth Fyd-eang: Strategaethau gwrth-hiliaeth mewn addysg amgueddfeydd ledled y byd." Roedd y sesiwn ysbrydoledig hon yn edrych ar sut mae amgueddfeydd ledled y byd yn darparu rhaglenni addysgol gwrth-hiliol. Roedd hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr y gellid ei haddasu i gyd-destun Cymru.

Oherwydd llwyddiant ein sesiynau 'archwiliad dwfn', fe wnaethom gyflwyno cyfres arall. Roedd hyn yn cwmpasu ystod eang o bynciau, o ddadbacio etifeddiaeth ymerodraeth mewn casgliadau amgueddfeydd i ddefnyddio technegau "drws ochr" i ymgysylltu â hanesion heriol. Roeddem hefyd yn cynnig cyfle prin ond mawr ei angen i gyfranogwyr ymgysylltu'n uniongyrchol ag athrawon. Darparwyd dealltwriaeth ddyfnach o arferion amgueddfeydd cynhwysol gan weithiwr treftadaeth proffesiynol profiadol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

“Gall amgueddfeydd chwarae rhan bwysig wrth ddad-drefedigaethu'r naratifau rydym yn eu cysylltu â'r gwrthrychau hyn. Os gellir rhoi cyfiawnhad i athrawon bod ymweliadau ag amgueddfeydd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm, maent yn fwy tebygol o gael cymorth gan arweinwyr ysgolion.

Llwyddiannau a chyflawniadau

Un o llwyddiannau arwyddocaol y rhaglen hon fu datblygu ymdeimlad cryf o gymuned ymhlith addysgwyr amgueddfeydd o bob rhan o Gymru. Er gwaethaf y fformat ar-lein, roedd y sesiynau'n cynnig cyfleoedd ar gyfer cysylltu a chydweithio. Drwy ystafelloedd ymneilltuo a thrafodaethau grŵp, roedd cyfranogwyr yn gallu rhannu eu gwaith, gofyn cwestiynau, a dysgu o brofiadau ei gilydd. Roedd y penderfyniad i beidio â recordio'r sesiynau yn hanfodol er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chreu lle diogel ar gyfer deialog agored. Roedd hyn yn galluogi cyfranogwyr i drafod pynciau sensitif yn hyderus, archwilio cwestiynau heriol, ac arbroti gyda dulliau newydd heb ofni camddehongli y tu allan i gyd-destun. Mae'r adborth a gafwyd wedi bod yn hynod o gadarnhaol, gyda llawer o gyfranogwyr yn tynnu sylw at werth yr amgylchedd dysgu cydweithredol hwn a'r ymdeimlad o ymddiriedaeth y mae'n ei annog.

Edrych i'r Dyfodol

Mae'r daith tair blynedd hon wedi bod yn drawsnewidiol. Drwy gofleidio arferion addysgol gwrth-hiliol, rydym yn paratoi'r ffordd i amgueddfeydd yng Nghymru – ac mewn mannau eraill – fod yn fannau gwirioneddol groesawgar a chynrychioladol i bawb. Mae'r astudiaethau achos a gyflwynir yma yn cynnig enghreifftiau ysbrydoledig o'r esblygiad parhaus hwn yn y sector treftadaeth, a'n gobaith yw y byddant yn ysbrydoli eraill i barhau â'r gwaith hwn am genedlaethau i ddod.



Dr Marian Gwyn
Ymgynghorydd
ARWAP GEM Cymru

Introduction

Transforming museum education in Wales: A three-year journey with GEM Cymru

Over the past three years, GEM Cymru has led a comprehensive programme to support museum educators as they embrace the new curriculum for Wales and embed the Welsh Government's Anti-Racist Wales Action Plan into their daily practices. This plan emerged from the powerful call for greater inclusivity and cultural awareness that burst into our lives in 2020. Backed by £4.5 million of Welsh Government funding, organisations embarked on projects that would lead to long-term change and which placed the lived experience of ethnic minorities at the forefront.

As a part of this, participants joined GEM Cymru on a journey of collaboration, learning, and growth, as we explored innovative approaches to creating more inclusive educational museum experiences for all. The focus throughout has been on practical delivery and sustainable change that could be implemented no matter the budget. The case studies presented here illustrate the innovative approaches and valuable lessons learned that have emerged from this work.

Year 1: Embracing the new curriculum for Wales

Our first year focused on demystifying the new curriculum recently introduced in Welsh schools. Through a series of online workshops, we investigated developments such as the six new Areas of Learning and Experience, which break down traditional subject boundaries, highlighting opportunities for museums to broaden their engagement with schools. We explored how to incorporate the themes and experiences of ethnic minorities into museum education, provided a platform for diverse individuals to share their lived experiences, and explored examples of best practice for inspiration.

Year 2: Deepening understanding and building skills

In year two, we organised interactive training sessions on key concepts such as cultural competence, understanding racism, and delivering anti-racist practices in educational settings. We invited guest speakers of ethnic minority backgrounds to share their expertise and engage in open dialogue with participants to encourage a deeper understanding of challenges and opportunities.

To provide more focused and practical guidance, we launched a series of "Dive Deep, Solve Big" solution sessions. These one-hour workshops tackled specific topics, such as inclusive activity sheets, managing diversity in educational visits, moving beyond tokenism, and embedding a lasting legacy of inclusion. These were led by subject specialists, ensuring participants received expert advice from diverse perspectives.

The year culminated with sessions that summarised the year's learning. These focused on practical strategies for delivering lasting anti-racist education programming, and developing clear roadmaps for identifying best practices, resources, and partners.

Year 3: Global inspiration and continued growth

In the final year, we broadened our horizons with a webinar on "Global Inspirations: Anti-racism strategies in museum education around the world." This inspiring session explored how museums across the globe are delivering anti-racist educational programmes. This provided valuable insights that could be adapted to the Welsh context.

Due to the success of our 'deep dive' sessions, we delivered another series. This covered a wide range of topics, from unpacking the legacy of empire in museum collections to using "side door" techniques to engage with challenging histories. We also provided a rare but much needed opportunity for participants to engage directly with teachers. A deeper understanding of inclusive museum practice was provided by an experienced heritage professional of ethnic minority background.

“Museums can play a significant part in decolonising the narratives we associate with these objects. If teachers are provided with justification that museum visits align with the curriculum, they are more likely to receive support from school leadership.”

Successes and achievements

A significant achievement of this programme has been the development of a strong sense of community among museum educators from across Wales. Despite the online format, the sessions provided opportunities for connection and collaboration. Through breakout rooms and group discussions, participants were able to share their work, ask questions, and learn from each other's experiences. The decision to not record the sessions proved crucial in building trust and creating a safe space for open dialogue. This allowed participants to confidently discuss sensitive topics, explore challenging questions, and experiment with new approaches without fear of out-of-context misinterpretation. The resulting feedback has been overwhelmingly positive, with many participants highlighting the value of this collaborative learning environment and the sense of trust it encouraged.

Looking ahead

This three-year journey has been transformative. By embracing anti-racist educational practices, we are paving the way for museums in Wales – and elsewhere – to become truly welcoming and representative spaces for all. The case studies presented here offer inspiring examples of this ongoing evolution within the heritage sector, and our hope is that they will inspire others to continue this work for generations to come.



Dr Marian Gwyn
GEM Cymru ARWAP
Consultant

Cynnwys



10



14



22



24



28



32



12



16

- 02 Cyflwyniad
Dr Marian Gwyn
- 08 Dull Newydd o Ddysgu: Huw Griffiths ar Gwricwlwm Cymru, Amgueddfeydd a Gwrth-hiliaeth
Dr Huw Griffiths
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- 10 Myfyrio ar Ailfframio Picton
Fadhili Maghiya
Panel Cynghori Is-Sahara
- 12 Cynnwys Lleisiau Cymunedol Lleol ac Integreiddio Hanes Pobl Ddu mewn Rhaglenni yn Amgueddfa Parc Gunnersbury
Gareth Brettell, Jennal Amin
Amgueddfa Parc Gunnersbury



26



30

- 14 Amser Te yng Nghyfarthfa
Charlotte Barry
Swyddog Addysg a Dehongli, Oriel Gelf ac Amgueddfa Castell Cyfarthfa
- 16 Cyfnewid, Rhannu, Cofio
Alina Trehwitt, Clare Smith, Kylea Little
Amgueddfeydd ac Archifau Tyne a Wear
- 18 Ysgol Gynradd Sgeti yn ymchwilio i 'Frwydr Abertawe'
Owain Dafydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- 20 Archwilio Arogl fel Ymarfer Dad-drefedigaethu yn The Courtauld
Tessa Carr
The Courtauld
- 22 Defnyddio Addysg fel Sbardun ar gyfer Newid Bodloni anghenion y Cwricwlwm i Gymru drwy Gasgliadau Amgueddfa Treftadaeth MonLife – #Cymru Wrth-hiliol
Michelle Lisa Gayle, Karin Molson
Amgueddfeydd Treftadaeth MonLife a Dysgu
- 24 Dyfodol/Grym
Carey Robinson
Amgueddfa Fitzwilliam, Prifysgol Caergrawnt
- 26 Teithiau Cefn Gwlad Trwy Brydain Drefedigaethol
Corinne Fowler
Prifysgol Caerlŷr

- 28 Dad-ddewis y Trywyddau: Ail-edrych ar Waith Hanesyddol Arddangosiadau Peiriannau
Chris Hill
Yr Amgueddfa Wyddoniaeth a Diwydiant
- 30 Creu Hyb ar gyfer Dysgu Gwrth-hiliol
Alex Noble, Frazer Swift
Amgueddfa Llundain
- 32 Creu Amgylchedd Croesawgar yng Nghanolfan Dylan Thomas
Jo Furber, Nicola Kelly
Canolfan Dylan Thomas (Cyngor Abertawe)

Dull Newydd o Ddysgu: Huw Griffiths ar Gwricwlwm Cymru, Amgueddfeydd a Gwrth-hiliaeth

Sgwrs gyda Huw Griffiths ar Gwricwlwm Newydd Cymru, Amgueddfeydd ac Addysg Gwrth-hiliaeth

Cyfweliad gan Robin Johnson Recordiwyd gan Katya Provornaya

Mae **Dr Huw Griffiths** yn uwch ddarlithydd mewn Astudiaethau Addysg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Gyda dros 20 mlynedd o brofiad fel athro ysgol uwchradd, mae hefyd wedi cyfrannu at gonsortia rhanbarthol a lefelau llywodraeth leol ar gyfer rhoi Cwricwlwm newydd Cymru yn ei le. Mae'n hyrwyddwr angerddol dros hanes Cymru, ac yn cadeirio Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig ac yn chwarae rhan weithredol mewn sefydlu Canolfan Genedlaethol Addysgu Hanes Cymru.



chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae'n rhoi pwyslais sylweddol ar hanes lleol, treftadaeth a hanes byd-eang. Mae cynnwys hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru yn y cwricwlwm yn hanfodol, nid yn unig ar gyfer myfyrwyr Cymru, ond ar gyfer y dirwedd addysgol ehangach. Nid yw treftadaeth leol wedi'i chyfyngu i'r dyniaethau yn unig – mae wedi'i phlethu ar draws gwahanol bynciau, gan wneud y cwricwlwm cyfan yn gyfoethocach ac yn fwy cydgyssylltiedig. Yn wir, cefais y fraint o gyfrannu at bost blog¹ ar gyfer Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain (BERA) ar *gynefin*, term sy'n cyfeirio at hanes a threftadaeth Cymru. Mae'r blog hwn yn archwilio sut mae treftadaeth Cymru wedi'i hintegreiddio i'r cwricwlwm newydd.

Rydw i wedi bod yn ymwneud â datblygu cwricwlwm newydd Cymru ers dros bum mlynedd, fel athro dosbarth i ddechrau. Yr hyn a'm trawodd ar unwaith am y cwricwlwm newydd yw iddo gael ei ysgrifennu gan athrawon. Cyfrannodd dros 200 o addysgwyr at ei ddatblygiad, a oedd yn broses wirioneddol ryfeddol. Wrth i mi symud i weithio gyda'r consortiwm, symudais i uwchsgilio'r proffesiwn addysgu. Heddiw, rwy'n uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, lle rwy'n parhau i ymgysylltu â'r cwricwlwm, yn enwedig ym maes y dyniaethau. Mae wedi bod yn werth chweil gweld ei esblygiad, yn enwedig o ran sut mae'n ymgorffori hanes lleol, treftadaeth a hanes byd-eang.

Un o uchafbwyntiau fy ngwaith gyda'r cwricwlwm fu datblygu Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, un o'i

Cefais y fraint o siarad â Charlotte sawl gwaith yn ystod y cyfnod clo, a thrwy'r sgyrsiau hynny, gwnaethom ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn yr oedd *cynefin* wir yn ei olygu. I ddechrau, roeddwn i'n poeni y byddai hanes y mwyafrif byd-eang yn cael ei leihau i ffigurau sy'n enwog yn rhyngwladol fel Martin Luther King neu Rosa Parks. Er fy mod i'n cefnogi addysgu am yr unigolion pwysig hyn, roeddwn i'n teimlo y dylai'r ffocws hefyd gynnwys straeon am gymunedau lleol yng Nghymru – pobl a oedd yn byw ac yn gweithio yma, y mae eu straeon yr un mor bwysig. Gweithiais yn galed i sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnwys hanesion lleol ochr yn ochr â ffigurau byd-eang.

Rôl Amgueddfeydd mewn Dysgu Ffurfiol

Fel addysgwr, rwyf hefyd yn credu bod gan amgueddfeydd rôl hollbwysig o ran cefnogi'r cwricwlwm newydd, yn enwedig drwy ddysgu seiliedig ar wrthrychau. Er nad wyf yn arbenigwr ar addysg amgueddfeydd, teimlaf yn gryf fod amgueddfeydd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm a'u casgliadau. Er enghraifft, mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi bod yn ailymweld â'u casgliadau ac yn eu dangos, gan gydweithio â sefydliadau fel Cymru Wrth-hiliaeth i sicrhau bod y casgliadau hyn yn cael eu gweld drwy lens mwy beirniadol a chynhwysol.

Yn ystod ymweliad â'r amgueddfa, cefais gyfle i archwilio rhai gwrthrychau diddorol. Er enghraifft, roedd set o gadeiriau a wnaed yn Shanghai gan blant amddifad yn rhan bwysig o'u stori. Roedd gan gadair arall, a luniwyd yn Awstralia, gysylltiadau â'r gymuned Gymreig yno yn ystod yr 1920au a'r 1930au. Mae'r enghreifftiau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd deall cyd-destun llawn gwrthrychau a'u hanes, nad yw bob amser yn amlwg ar unwaith. Gall amgueddfeydd chwarae rhan bwysig wrth ddad-drefedigaethu'r naratifau rydym yn eu cysylltu â'r gwrthrychau hyn.

Rwy'n annog amgueddfeydd yn gryf i gydweithio â sefydliadau sy'n gysylltiedig ag amgueddfeydd sy'n cefnogi'r ARWAP yn weithredol i adolygu eu casgliadau'n feirniadol. Nid yw'r broses hon yn ymwneud â datgelu

anghyfiawnderau hanesyddol yn unig, ond â chydabod yr effaith barhaol y mae'r gwrthrychau hyn yn ei chael ar sut mae hanes yn cael ei gofio a'i ddysgu.

Gwneud Newidiadau Bach, Ystyrion mewn Amgueddfeydd

O ran y camau ymarferol y gall amgueddfeydd eu cymryd, credaf fod adolygu eu casgliadau yn lle gwych i ddechrau. Mae gan bob amgueddfa ei ffocws unigryw, boed yn Eifftoleg, celf neu hanes, ac mae'r casgliadau hyn yn aml yn adlewyrchu naratifau hanesyddol penodol – rhai ohonynt yn gysylltiedig ag ecploetiaeth a gwladychiaeth. Drwy ailasesu'r straeon sy'n cael eu hadrodd drwy'r gwrthrychau hyn, gall amgueddfeydd wneud eu cyflwyniadau'n fwy cynhwysol a myfyriol o'r cymunedau amrywiol y maent yn eu gwasanaethu.

Mae hefyd yn bwysig meddwl am sut mae amgueddfeydd yn cyflwyno eu hunain. A yw'r deunyddiau maen nhw'n eu cynhyrchu – posteri, taflenni, arddangosfeydd – yn cynnwys pobl o'r mwyafrif byd-eang? Mae angen i amgueddfeydd sicrhau bod eu deunyddiau'n adlewyrchu amrywiaeth eu cymunedau, a'u bod yn adrodd straeon sy'n taro tant gyda chynulleidfa ehangach. I wneud hyn yn effeithiol, mae'n bwysig gweithio gydag arbenigwyr o sefydliadau fel Cymru Wrth-hiliol i sicrhau bod y naratifau sy'n cael eu cyflwyno yn gynhwysol.

Fel dyn gwyn canol oed, rwy'n ymwybodol iawn o fy sefyllfa a'r ffaith nad oes gen i brofiad uniongyrchol o hiliaeth. Mae'r hunanymwybyddiaeth hon yn hanfodol gan ei bod yn annog myfyrio parhaus ac ymrwymiad i gael adolygiad gan gymheiriaid. Rhaid i ni barhau i fod yn agored i adborth, yn enwedig gan y rheini sydd â phrofiad bywyd o'r materion rydym yn mynd i'r afael â nhw. Dyma'r unig ffordd y gallwn wneud newidiadau ystyrion.

Hanes Lleol a Phrofiadau Mwyafrif Byd-eang

O ran ymgysylltu â phrofiadau mwyafrif byd-eang drwy hanes lleol, credaf fod gan amgueddfeydd gyfle gwych i ehangu eu naratifau. Hyd yn oed os nad oes gan gymuned amgueddfa boblogaeth lleiafrifoedd ethnig fawr,

mae'n dal yn werthfawr archwilio hanes ehangach ymfudo, gwladychu a rhyng-gysylltiad byd-eang. Er enghraifft, ymfudodd llawer o Gymry i wledydd fel Awstralia, Canada a'r Unol Daleithiau, ac mae effaith y symudiadau byd-eang hyn yn berthnasol iawn i stori'r amgueddfa.

Gall amgueddfa adlewyrchu amrywiaeth y gymuned leol drwy archwilio sut mae digwyddiadau a gwrthrychau hanesyddol yn cysylltu â'r cyd-destun byd-eang. Mae'n ymwneud â chydabod effaith fyd-eang digwyddiadau lleol ac ehangu'r naratif i gynnwys ystod ehangach o leisiau a phrofiadau.

Pwysigrwydd Amgueddfeydd mewn Addysg Athrawon

O ran hyfforddiant cychwynnol athrawon, credaf fod cyfle sylweddol i wella'r cydweithio rhwng amgueddfeydd a rhaglenni addysg athrawon. Er fy mod yn addysgu'n bennaf ar raglenni Meistr a Doethuriaeth, rwy'n gwybod bod myfyrwyr israddedig mewn hanes a'r dyniaethau yn aml yn ymweld ag amgueddfeydd fel rhan o'u gwaith cwrs. Mae hwn yn gyfnod hollbwysig i ymgysylltu â nhw, gan fod yr athrawon y dyfodol hyn yn gynulleidfa barod y gellir eu hysbrydoli i ymgorffori amgueddfeydd yn eu harferion addysgu.

Yng Nghymru, mae'r cwricwlwm yn annog ysgolion i fynd â myfyrwyr i amgueddfeydd, ond weithiau gall hyn gael ei esgeuluso ym mywyd dyddiol yr ysgol. Os gellir rhoi cyfiawnhad i athrawon bod ymweliadau ag amgueddfeydd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm, maent yn fwy tebygol o gael cymorth gan arweinwyr ysgolion. Yn fy mhrifysgol, rydym wedi creu ystafell ryngweithiol gyda sgriniau enfawr, sy'n galluogi myfyrwyr i archwilio amgueddfeydd rhithwir o bob cwr o'r byd. Mae'n ffordd arloesol o gysylltu myfyrwyr ag amgueddfeydd, hyd yn oed os na allant ymweld eu hunain. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Amgueddfa Lechi i ddatblygu profiad 3D yn fyfyrwyr ei archwilio naill ai yn yr ystafell ryngweithiol neu drwy bensesiaeth rhithwir. Mae gan y dechnoleg hon y potensial i wneud profiadau amgueddfeydd yn fwy hygyrch, ac rwy'n credu ei fod yn ddatblygiad cyffrous.

Casgliad

I gloi, credaf fod gan amgueddfeydd rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cefnogi cwricwlwm Cymru, yn enwedig drwy ymgysylltu â hanes lleiafrifol lleol a byd-eang a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar wrthrychau. Mae sawl ffordd y gall amgueddfeydd wneud newidiadau bach ond ystyrion, o adolygu eu casgliadau i sicrhau bod eu deunyddiau'n adlewyrchu amrywiaeth eu cymunedau. Drwy groesawu'r newidiadau hyn, gall amgueddfeydd gyfrannu at brofiad addysgol mwy cynhwysol a chynhwysfawr i bawb.

Rwy'n teimlo'n angerddol am botensial amgueddfeydd i ddod â phynciau'n fyw a gwneud hanes yn fwy perthnasol i bobl heddiw. Rydw i bob amser yn hapus i barhau â'r sgwrs hon a gweithio gydag eraill sy'n rhannu'r weledigaeth hon.

¹ www.bera.ac.uk/blog/cynefin-a-special-place-within-every-learners-heart

² www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/black-asian-minority-ethnic-communities-contributions-cynefin-new-curriculum-working-group-final-report.pdf

Mwy o Wybodaeth

www.bera.ac.uk/blog/cynefin-a-special-place-within-every-learners-heart

Llywodraeth Cymru. (2020). *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales>

Gweithgor Cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Cyfraniadau a Chynefin yn y Cwricwlwm Newydd (2021). www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/black-asian-minority-ethnic-communities-contributions-cynefin-new-curriculum-working-group-final-report.pdf

Sut gall eich amgueddfa, archif neu lyfrgell astudio leol eich helpu i gyflwyno eich cwricwlwm newydd? Adnodd GEM Cymru: www.youtube.com/watch?v=6Ra2ytcFdIo

Myfyrio ar Ailfframio Picton



Crynodeb

Roedd prosiect Ailfframio Picton yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, dan arweiniad SSAP, yn tynnu sylw at waddol trefedigaethol cymhleth ac yn cynnwys arweinyddiaeth ieuencid er gwaethaf pryderon staff. Roedd yn meithrin ymdrechion dadwladychu parhaus a mentrau addysgol sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth.

Cefndir

Ffurfiwyd Panel Cynghori Is-Sahara yn 2009 i hyrwyddo achos cymunedau Du Cymreig. Mae SSAP yn rhedeg rhwydwaith dan arweiniad pobl ifanc er mwyn i bobl ifanc gyfarfod, rhwydweithio, cefnogi ei gilydd, ac arwain ar brosiectau sy'n berthnasol iddynt. Ar gyfer Ailfframio Picton, buom yn gweithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, lle'r oedd portread maint byw o Syr Thomas Picton yn hongian yn oriel 'Wynebau Cymru'.



Her

Syr Thomas Picton oedd y swyddog uchaf i gael ei ladd yn Waterloo, a chafodd ei fawrygu fel arwr Cymreig, er gwaethaf ei gysylltiad â gwladychiaeth a chaethwasiaeth. Nid ffigur dadleuol yn unig yw Picton heddiw, ond yn ystod ei gyfnod roedd eisoes yn cael ei adnabod fel Teyrn Trinidad.

Aethom ati i ddatgelu stori gymhleth Syr Thomas Picton ac i dynnu sylw at leisiau Du a Thrinidadaidd yn yr ailadrodd hwn.

Dull

Roedd Ieuencid SSAP eisoes yn gweithio gyda'r Amgueddfa ac roedd Picton yn cael ei weld i ddechrau fel gweithgaredd ychwanegol 'bach'. Fodd bynnag, roedd gweithdy pontio'r cenedlaethau a oedd yn dod â lleisiau o gymunedau Du yng Nghymru at ei gilydd yn tynnu sylw at y ffaith bod angen ymagwedd ddofn ac ystyriol, gan helpu i osod y nod fel un o 'ailfframio' yn hytrach na 'dileu' neu 'ganslo' Picton.

Canlyniadau arfaethedig

- Herio arferion amgueddfeydd;
- Cynyddu gwybodaeth;
- Dysgu/datblygu sgiliau;
- Arweinyddiaeth ieuencid;
- Tynnu sylw at leisiau Du/Trinidadaidd.

Allbynnau arfaethedig

- Ail-fframio Syr Thomas Picton yn Wrth-hiliol;
- Ymateb creadigol gan artistiaid Du;
- Arddangosiad oriel newydd.

Rhwystrau a phroblemau

Cawsom lawer o adlach gan y cyhoedd, yn bennaf grwpiau ac unigolion asgell dde ond hefyd nifer fach o leisiau Du gorfeiriadol. Cafodd ein Prif Swyddog Gweithredol negeseuon personol a negeseuon e-bost tra bod ein cyfryngau cymdeithasol yn cael eu llethu gan iaith ymfflamychol.

Cefnogi a diogelu pobl ifanc – gwnaethom greu lle diogel, gan ddiogelu hunaniaeth pobl ifanc sy'n gweithio ar y prosiect. Ar ôl y prosiect, sylweddol ni y byddai cymorth cwnsela wedi bod o fudd i'r bobl ifanc a oedd yn cyfranogi.

Gyda'r rhan fwyaf o'r prosiect yn cael ei gyflawni yn ystod y pandemig, roedd ymgysylltu â phobl a chymunedau yn her. Fe wnaethon ni'r gorau y gallen ni gyda chyfarfodydd ar-lein. Byddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi cael effaith wahanol ar y prosiect. Fodd bynnag, pan ddechreuon ni weithio gydag artistiaid yn Trinidad, roedd cyfarfodydd ar-lein yn effeithiol.

Roedd arafwch yr amgueddfa ar brydiau'n cyferbynnu ag egni ac awydd y bobl ifanc i weld newid. Fodd bynnag, roedd dysgu ar y cyd, ac roedd grŵp o bobl ifanc wedi ymgysylltu am dros flwyddyn, gan



deimlo bod y lefel ddwys hon o gyfranogi yn ystyrlon.

Canlyniadau gwirioneddol

Cafodd y portread o Syr Thomas Picton ei dynnu o oriel Wynebau Cymru a'i hongian mewn arddangosfa sy'n cynnwys tair ystafell, gan ddod â gwaith celf gan artistiaid Du lleol, artist yn Trinidad a gwybodaeth hanesyddol fanwl at ei gilydd.

Allbynnau gwirioneddol

Dysgu ar y cyd rhwng yr amgueddfa a Ieuencid SSAP, cyfnewidiad artistig rhyngwladol, gan gysylltu Cymru â Trinidad.

Gwersi a ddysgwyd

Roedd llawer o ofn ymysg staff yr amgueddfa ynghylch gwneud pethau'n anghywir. Mae hyn wedi arwain at negeseuon anghyson weithiau i'r bobl ifanc dan sylw, petruster a phryder ymysg staff yr amgueddfa. Er ei bod yn hawdd anwybyddu cam-drin hiliol, daeth beirniadaeth hefyd gan unigolion yr oedd yr amgueddfa'n dymuno ymgysylltu â nhw'n gadarnhaol. Roeddem wedi rhoi'r awenau i

bobl ifanc, yn hytrach na haneswyr neu ymgyrchwyr hirdymor, ac roedd hyn yn peri gofid i rai. Mae'n bwysig sylweddoli na fydd unrhyw brosiect byth yn plesio pawb. Er bod cwestiynu a meddwl dwfn yn bwysig, fe ddaw hi'n amser hefyd i wneud penderfyniadau a glynu wrthynt. Wrth edrych yn ôl, byddwn wedi hoffi i ni gynnig mwy o gymorth cwnsela i'r bobl ifanc a gyfranogodd. Mae angen i amgueddfeydd ofalu am eu staff hefyd. Mae gweithio ar hanes gofidus yn heriol yn emosiynol i bawb dan sylw, mae'n hawdd diystyru teimladau staff fel 'eiddilwch gwyn' – ond er mwyn gwneud y gwaith hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir, mae angen cefnogaeth ar bawb sy'n gysylltiedig.

Y camau nesaf

Bydd Ailfframio Picton yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd tan fis Ionawr 2025. Bu i rai o'r bobl ifanc gael swyddi yn y sector treftadaeth. Mae'r gwaith dadwladychu yn mynd rhagddo ac mae SSAP yn parhau i weithio gydag Amgueddfa Cymru. Rydym hefyd yn cynnal ein brosiectau treftadaeth ein hunain i barhau i ail-lunio hanes Cymru,



“ Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn sut y gall lleisiau a dulliau Du gyfrannu at ailadrodd hanesion dadleuol, ac mewn defnyddio celf i greu profiadau sy'n meithrin undod ac arbrofi wrth ailweithio hanes.

y Caribî ac Affrica ar y cyd. Ar hyn o bryd, mae SSAP yn gweithio ar brosiect a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n ceisio creu deunyddiau dysgu ar gyfer ysgolion, sy'n dod â hanes Du Cymru yn fyw. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn sut y gall lleisiau a dulliau Du gyfrannu at ailadrodd hanesion dadleuol, ac mewn defnyddio celf i greu profiadau sy'n meithrin undod ac arbrofi wrth ailweithio hanes.

Mwy o Wybodaeth

museum.wales/collections/online/object/4adfdd41-6370-36bf-a907-c74f5ad7d4a5/Lieutenant-General-Sir-Thomas-Picton-1758-1815
bbc.co.uk/news/uk-wales-53512384
museum.wales/about-us/Black-lives-matter/reframing-picton
ssap.org.uk



Cynnwys Lleisiau Cymunedol Lleol ac Integreiddio Hanes Pobl Ddu

mewn Rhaglenni yn Amgueddfa Parc Gunnersbury

Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon yn edrych ar enghraifft o brosiect dysgu ffurfiol, 'Ailddychmygu Gunnersbury', a gefnogwyd gan grant gan y Gronfa Gelf am flwyddyn o weithgaredd i gynnwys mwy o Hanes Pobl Ddu. Mae'r astudiaeth achos hon hefyd yn gosod y prosiect yng nghyd-destun ein dull cyffredinol o ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned.

Cefndir

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn elfen ganolog o'n gwaith NPO ac mae'n allweddol i'n cenhadaeth i ddefnyddio ein hasedau i hyrwyddo cyfleoedd addysgol, diwylliannol, hamdden a chymunedol i bawb. Mae cyflawni hynny'n briodol yn seiliedig ar well dealltwriaeth ac ymateb i'n cymunedau amrywiol, gan gynnwys mwy o amrywiaeth o leisiau yn ein gwaith ehangach a chan gynnwys hanesion pwysig a esgeuluswyd yn flaenorol.

Her

Wrth edrych yn ôl, roedd yn amlwg bod angen i ni gynnwys mwy o leisiau yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Gallem weld bod cyfle i ddysgu o ffyrdd eraill posibl o fynd i'r afael â'r hyn a oedd ar goll yn ein rhaglenni a dod â phobl/grwpiau amrywiol at ei gilydd mewn sgwrs a fyddai'n creu budd i bawb.

Dull

Buom yn gweithio gyda The Black Curriculum i gynnal archwiliad a hyfforddiant. Gwnaethom ddefnyddio

ymchwil i wella ein cynnig a rhannu profiadau ymhlith rhwydwaith treftadaeth ac addysg. Roedd gwaith ehangach ar ymgysylltu â'r gymuned yn addasu model 'Hyrwyddwyr lechyd Cymunedol' drwy recriwtio Hyrwyddwyr Diwylliant Cymunedol a'u grymuso drwy grantiau hyfforddi bach. Maen nhw'n eiriolwyr ac yn ffrindiau beirniadol sy'n cefnogi'r gwaith o feithrin partneriaethau, rhaglennu a gwerthuso.

Canlyniadau arfaethedig

- Adolygu'r ddarpariaeth ddysgu bresennol;
- Awgrymu Hanesion Pobl Ddu i'w cynnwys;
- Gwella'r ddarpariaeth ddysgu;
- Rhannu syniadau/gwybodaeth;
- Cynyddu amrywiaeth o ran ymgysylltu â'r gymuned.

Allbynnau arfaethedig

- Adroddiad archwilio
- Hyfforddiant
- Ymchwil
- Diweddarau'r gweithdai presennol
- 2 weithdy Hanes Pobl Ddu newydd
- Digwyddiadau rhwydwaith
- Ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned i recriwtio deuddeg Hyrwyddwyr Diwylliannol Cymunedol

Rhwysterau a phroblemau

- Anodd cydbwysu uchelgeisiau i

ddiweddarau rhaglen fawr gydag amser staff cyfyngedig o ystyried y llwyth gwaith presennol.

- Roedd yr angen i gydlyn argaeledd partneriaid gwahanol wedi cael effeithiau canlyniadol ar amserlenni.
- Mae'n anodd integreiddio hanesion newydd yn gydlynol mewn gweithdai fel nad ydynt yn teimlo fel ychwanegiadau, neu'n hawdd eu hepgor os yw gweithdy'n cael ei gwtogi.
- Roedd rhai athrawon yn ei chael yn anodd mynd i gyfarfodydd ac roedd yn well ganddynt fynd ar-lein.
- Mae'n bwysig trin plant o gefndiroedd amrywiol yn briodol mewn gweithdai newydd sy'n delio â materion diwylliannol sensitif, yn enwedig, er enghraifft, os ydyn nhw'n defnyddio gwrthrychau replica sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth neu os ydyn nhw'n chwarae rôl.
- Canfu gwaith ymgysylltu â'r gymuned ehangach fod cyfarfodydd misol yn anodd eu mynychu, felly yn hytrach defnyddiwyd llai o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhai ar-lein.

Canlyniadau gwirioneddol

- Mae mwy o Hanesion Pobl Ddu wedi'u cynnwys yn ein rhaglenni.
- Wedi gweithio gydag athrawon, addysgwyr treftadaeth, ymchwilyr a hyfforddwyr fel bod gan y staff fwy o wybodaeth.

- Mae gweithdai newydd yn defnyddio ein cryfderau mewn dysgu trochi drwy ryngweithio ag actor byw wedi'i ffilmio ac ymchwilio i archifau a thrin gwrthrychau.
- Mae gweithdy Stori Equiano yn rhoi'r un pwys i hanes Affricanaidd penodol cyn caethwasiaeth â digwyddiadau diweddarach, yn edrych ar ble yr aeth arian o gaethweision mewn tai gwledig ac yn ystyried gwrthrychau Affricanaidd a gymerwyd ac a gadwyd ym Mhrydain.
- Mae gweithdy newydd Unite Pobl yn annog empathi, yn cymharu ffynonellau ac yn defnyddio chwarae rôl i ddeall ymfudo, anghydraddoldebau, gwrthwynebiad, protest a newid cymdeithasol.
- Roedd y rhaglen ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn recriwtio ac yn defnyddio hyrwyddwyr diwylliant sy'n adlewyrchu'r gymuned.
- Cynhwysiant wrth galon rhaglennu.
- Mae Hyrwyddwyr Diwylliant o wahanol gefndiroedd wedi bondio'n dda.
- Mae rhai Hyrwyddwyr Diwylliant wedi rhannu sgiliau â'i gilydd sy'n cynyddu cydlyniant cymunedol ac yn gam pwerus ar daith gwrth-hiliaeth.

Allbynnau gwirioneddol

- Rhoddwyd adroddiad archwilio ar waith.
- Sesiynau hyfforddi wedi'u cyflwyno.
- Gweithdai newydd wedi'u datblygu.
- Recriwtio deuddeg Hyrwyddwyr Diwylliant.

Maent wedi:

- gwerthuso arddangosfa gyda churaduron a gwella sgiliau mesur effaith;
- bwydo i mewn i raglenni ar gyfer arddangosfa cerddoriaeth a gweithrediaeth gymunedol a gynhyrchwyd ar y cyd yn Southall ;
- cynnal gweithdai ffotograffiaeth gyda gwaith yn cael ei arddangos mewn arddangosfa deithiol;



“Buom yn gweithio gyda The Black Curriculum i gynnal archwiliad a hyfforddiant. Gwnaethom ddefnyddio ymchwil i wella ein cynnig a rhannu profiadau ymhlith rhwydwaith treftadaeth ac addysg.

- bwydo i mewn i gais am gyllid yn ddiweddar;
- defnyddio bwrsariaethau hyfforddi ar gyfer datblygiad personol a rhannu â'u haelodau.

Gwersi a ddysgwyd

- Lleihau llwythi gwaith eraill fel bod digon o amser penodol.
- Cynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer newidiadau yn argaeledd pobl.
- Gwerthfawrogi faint o wybodaeth sy'n bodoli.
- Dal ati i ddatblygu'r cysylltiadau.
- Os nad oes cyllid, amser neu arbenigedd ar gael ar unwaith, dechrau ar raddfa fach a defnyddio pobl mae gennych eisoes gysylltiad â nhw.

Y camau nesaf

Byddwn yn:

- ymgynghori mwy ynghylch yr hyn yr hoffai partneriaid cymunedol ei gael o'r cynllun hwn;
- nodi mwy o bartneriaethau sy'n seiliedig ar leoedd i ymgysylltu ymhellach ag aelodau o'n cymuned nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol;

- gwahodd cymunedau gwahanol a sicrhau mwy o gyfleoedd i gyd-gynhyrchu;
- adolygu sut y mae'n cysylltu ag amcanion strategol ar draws y sefydliad;

- ei ddefnyddio fel model ar gyfer gwaith cynhwysiant pellach, e.e. mwy o gymunedau, mwy o ddarpariaeth AAA a Niwroamrywiol a mwy o hanesion.

Byddai mwy o ddigwyddiadau hyfforddi a rhannu wedi bod yn ddelfrydol, ond bydd angen ailedrych ar y broses yn rheolaidd. Mae'n rhan o daith wrth-hiliaeth barhaus lle mae'n bosibl y bydd angen i ni newid yr union lwybr wrth i ni fynd yn ein blaenau, ond mae'r manteision yn barhaus, weithiau'n annisgwyl ond bob amser yn angenrheidiol ac yn werth chweil.

Mwy o Wybodaeth

Cysylltwch â ni yn:

Gareth Brettell
Brettellg@visitgunnersbury.org
Jennal Amin
Aminj@visitgunnersbury.org

Amser Te yng Nghyfarthfa

Cymunedau

Crynodeb

Nodwyd bod gan y casgliad yng Nghastell Cyfarthfa gyd-destun trefedigaethol mawr drwy adroddiad cwmpasu a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r canfyddiadau wedi sbarduno'r amgueddfa tuag at ail-ddehongli ac ail-arddangos rhywfaint o'r casgliad a nodwyd yn yr adroddiad. Dechreuon ni gydag "Amser Te", prosiect sy'n edrych ar ail-ddehongli set de Coalport, sy'n gysylltiedig â theulu Haearn Crawshay.

Cefndir

Nododd yr adroddiad nifer o wrthrychau â chysylltiadau arwyddocaol â gwladychiaeth yn y casgliad, felly dewiswyd detholiad i'w sganio'n ddigidol a'u hargraffu'n 3D, i fod yn sylfaen ar gyfer y prosiect "Amser Te".

Mae prosiect ARWAP diweddar wedi galluogi'r amgueddfa i edrych yn ofalus ar sut mae'n cynrychioli casgliadau trefedigaethol neu ddadleuol a sut y gellir cynrychioli hanesion cudd yn well, a theimlwyd bod y set de Coalport yn fan cychwyn naturiol oherwydd ei bod yn cael ei harddangos yn barhaol a bod

ganddi gysylltiad clir â'r cyhoedd – mae mwynhau te yn nodweddiadol Brydeinig, ac yn rhywbeth y mae angen ei gyd-destunoli.

Mae Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Cyfarthfa wedi bod yn gweithio gyda Chanolfan Treftadaeth India y DU i ddatblygu'r prosiect hwn i greu set de Coalport newydd ar y cyd sy'n darlunio treftadaeth te India yn glir.

Her

Roedd cyfyngiadau amser y cylch cyllido cychwynnol yn cyfyngu ar y gwaith y gallem ei gyflawni'n realistig, ond roedd yn gorfodi'r angen i'r gwaith hwn fod yn barhaus drwy



arferion yr amgueddfa. Gan mai'r prosiect hwn oedd y prosiect cyntaf i ganolbwyntio ar ARWAP yr oedd yr amgueddfa wedi dechrau gweithio arno, roedd heriau o ran hyder hefyd o ran sicrhau bod yr hyn yr oeddem yn ei wneud yn "briodol" i'r cymunedau yr oeddem am ail adrodd eu hanes.

Dull

Gofynnwyd am arweiniad gan weithwyr proffesiynol mewn amgueddfeydd ynghylch y dull gorau o ymdrin â'r prosiect hwn, gan ddibynnu ar gydweithwyr i helpu i ddatblygu'r arferion gorau a meithrin hyder o ran darparu ac ymgysylltu'n gyffredinol. Roeddem am sicrhau y gallai'r grŵp gymryd perchnogaeth dros y prosiect hwn, a'n bod yno i gefnogi'r gwaith o gyflwyno eu straeon a'u hanesion.

Roeddem wedi cwrdd â'n grŵp cymunedol cyn dechrau'r prosiect i sicrhau ein bod i gyd yn gyfarwydd ac yn deall gwerthoedd y grŵp ac yn dod i'w hadnabod ar lefel bersonol. Roeddem hefyd wedi sicrhau drwy bob un o'r "gweithdai" y gallai gwahanol aelodau o dîm yr amgueddfa ddod draw i gwrdd â'r grŵp, a bod yr artist a oedd yn peintio'r ail-ddehongliad ar y sgan 3D yn bresennol i feithrin perthynas â nhw. Adeiladu ymddiriedaeth a naratif oedd yr allbwn pwysicaf i ni.

sut y mae'n cynrychioli casgliadau trefedigaethol neu ddadleuol a sut y gellir cynrychioli hanesion cudd yn well, ac felly ni fydd byth yn cael ei gwblhau. Mae'r gwaith gyda'r grŵp yn dal i fynd rhagddo, gyda set de wedi'i phaentio i fod wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025.

Gwersi a ddysgwyd


Mae'r prif wersi a ddysgwyd yn cynnwys tryloywder a chyfathrebu agored o ddechrau unrhyw brosiect newydd. Gwnaethom hefyd bwysleisio wrth weithio gyda'n grŵp nad ni yw'r arbenigwr yn yr ystafell hon, ac rydym yma i ddysgu a datblygu ein gwybodaeth ochr yn ochr â nhw a gyda nhw. Mae hyblygrwydd hefyd yn allweddol, a gwybod y gallwch ofyn am gefnogaeth ac arweiniad gan eich partneriaid.

Y camau nesaf

Mae'r camau nesaf ar gyfer Cyfarthfa yn cynnwys dehongliad newydd mewn oriel barhaol, wedi'i gyfoethogi gydag allbynnau gan ysgolion a chymunedau. Mae adolygiad o gasgliadau a gwella cofnodion casgliadau yn cael ei gynllunio ochr yn ochr â'r gwaith hwn i gofnodi hanesion a lleisiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Rydym hefyd yn edrych yn y tymor hwy i ymchwilio'n weithredol i'r casgliad a mynd i'r afael ag unrhyw heriau sy'n deillio o hen syniadau, naratifau a pholisïau casglu mewn ffordd ystyriol, agored a thryloyw sy'n hyrwyddo cydgynhyrchu yn y dull hwnnw.

“Gofynnwyd am arweiniad gan weithwyr proffesiynol mewn amgueddfeydd ynghylch y dull gorau o ymdrin â'r prosiect hwn, gan ddibynnu ar gydweithwyr i helpu i ddatblygu'r arferion gorau a meithrin hyder o ran darparu ac ymgysylltu'n gyffredinol.



Canlyniadau arfaethedig

Mae canlyniadau'r prosiect hwn yn cynnwys dehongliad newydd o set de Coalport, gyda diwylliant te India yn flaenllaw. Caniatáu i ymwelwyr weld delweddau clir, diffiniol fel nad oes dryswch ynghylch tarddiad te a phwysigrwydd hynny i ddiwylliant India, yn ogystal â chydabod yr ymerodraeth Brydeinig a chyfoeth yn oes Fictoria.

Allbynnau arfaethedig

Mae'r allbynnau ffisegol yn cynnwys set de 3D wedi'i phaentio, aildehongliadau ar gyfer ysgolion o hanes te, a chyllid sydd ar y gweill yn y dyfodol, diwrnod diwyllianol Indiaidd yn yr Amgueddfa i ddatlu gwaith y grŵp ar y prosiect hwn.

Rhwysterau a phroblemau

Y prif faterion y daethpwyd ar eu traws yn ystod y prosiect hwn oedd ynghylch amseru. Roedd angen i ni fod yn hyblyg ynghylch pryd y gallem gwrdd â'r grŵp gan y byddent yn cyfarfod unwaith y mis ar ddydd Sadwrn oherwydd eu bod yn weithwyr proffesiynol.

Canlyniadau gwirioneddol

Mae'r prosiect yn dal i fynd rhagddo, ac mae'n debygol na fydd byth yn "gyflawn". Mae wedi galluogi'r amgueddfa i edrych yn ofalus ar

Mwy o Wybodaeth

Diolch i **Ganolfan Treftadaeth India y DU** a **Tripti Megeri** am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth barhaus.

Dr Marian Gwyn a **Beloved Elizabeth Adonai** am eu cefnogaeth a'u hanogaeth parhaus drwy'r prosiect.

Kiera Moran am weithio gyda ni i wireddu'r tebot yn unol â'r ymatebion a gasglwyd.

Cyfnewid, Rhannu, Cofio

Crynodeb

Roedd *Shared Stories* yn brosiect ymchwil dan arweiniad y gymuned a gynhaliwyd yn Amgueddfa ac Oriel Gelf South Shields (SSMAG). Roedd yn rhan o raglen dadwladychu Amgueddfeydd ac Archifau Tyne a Wear (TWAM). Gweithiodd y tîm gyda grŵp llywio cymunedol o'r gymuned Fangladeshaidd i archwilio casgliad yr amgueddfeydd a chynhyrchu allbwn creadigol. Roedd aelodau'r gymuned yn gwneud y penderfyniadau allweddol ac yn cael eu cydnabod am eu hamser.

Cefndir

Mae SSMAG yn rhan o TWAM, sy'n wasanaeth amgueddfeydd rhanbarthol. Mae *Shared Stories* yn rhan o gyfres o archwiliadau strategol parhaus yn TWAM i agor ein sefydliad i gymunedau'r Mwyafrif Byd-eang a gwneud newidiadau sylweddol yn ein harferion dadwladychu, cynhwysiant a pherthnasedd.

Her

Yn dilyn proses o fyfyrion gyda staff, mewn ymateb i'r anghydraddoldebau a amlygwyd drwy'r pandemig a Mae Bywydau Du o Bwys, daeth ffrydiau cyffredin i'r amlwg. Roeddem yn cydnabod bod angen y canlynol arnom:

- system unedig ac ymrwymiad i rannu gwybodaeth a gwreiddio cysylltiadau sefydledig ar draws y sefydliad.



- sicrhau bod partneriaethau newydd yn gynhyrchiol, bod cysylltiadau'n cael eu gwneud a'u hannog gyda staff parhaol, a bod cyfranogwyr yn cael eu cyfeirio a'u hannog i barhau i ymgysylltu â ni.
- bod yn glir ynghylch ein gwerthoedd a'r hyn y dylai pobl ei ddisgwyl gennym ni. Dylai ein gwerthoedd fod yn sail i bopeth o bartneriaethau i weithgareddau cynhyrchu incwm.
- Dylai ein cymunedau amrywiol gael eu hadlewyrchu drwy ein gweithlu, ein stoc siopau, ein cyfathrebiadau a'n straeon.

Yr her oedd adeiladu ar brosiect ymchwil blaenorol dan arweiniad y gymuned a gynhaliwyd yn Amgueddfa Discovery, sydd hefyd yn rhan o TWAM, yn 2021-22. Gwella'r

broes a pharhau i'w gwreiddio fel dull o weithio ar draws y gwasanaeth amgueddfeydd. Ac yna i wneud hyn a'i gynnal mewn lleoliad TWAM arall: GNM: Hancock.

Y nod hefyd oedd nodi a meithrin perthynas gyda grŵp o'r Mwyafrif Byd-eang yn Ne Tyneside, a oedd am ymgysylltu â'r tîm a'r casgliadau. Mynd i'r afael hefyd â dadwladychu a'u grymuso i arwain ar benderfyniadau allweddol gan gynnwys pa bwnc i ganolbwyntio arno, sut i siapio'r casgliad a sut i rannu'r gwaith hwnnw gydag ymwelwyr amgueddfeydd.

Dull

Mabwysiadu dull gweithredu dan arweiniad y gymuned i archwilio ac arallgyfeirio casgliadau Amgueddfa ac Oriel Gelf South Shields (SSMAG). Ariannwyd gan Gronfa Casgliadau Esme Fairbairn (EF).

Canlyniadau arfaethedig

- Arallgyfeirio'r gynulleidfa a'r casgliadau ar gyfer yr amgueddfa, er mwyn adlewyrchu'r gymuned leol;
- Gwella hyder ac arbenigedd staff o ran gweithio gyda'r gymuned fwyafrifol Fyd-eang leol.

Allbynnau arfaethedig

- Cynhyrchu un allbwn cyhoeddus creadigol yn yr amgueddfa;
- Ychwanegu at y casgliad parhaol a'i amrywio.

Cymunedau

Rhwystrau a phroblemau

- Nid oedd perthynas â'r gymuned Fangladeshaidd yn bodoli bryd hynny, a dim ond 12 mis i sefydlu perthynas, recriwtio a chyflwyno'r prosiect.
- Digwyddodd yr alwad am wrthrychau yn ystod Ramadan felly nid oedd hyn yn flaenoriaeth i'r gymuned, felly roedd nifer y gwrthrychau a gynigiwyd yn isel i ddechrau.
- Roedd normau diwylliannol ynghylch defnyddio delweddau yn golygu bod rhywfaint o sensoriaeth ynghylch defnyddio delweddau o bobl wedi marw neu fenywod.
- Roedd hi'n anodd perswadio'r gymuned i roi benthyg gwrthrychau, heb sôn am eu rhoi nhw. Efallai fod hyn oherwydd diffyg cynefindra â chysyniadau amgueddfeydd neu fod angen mwy o amser i feithrin ymddiriedaeth.
- Gwnaeth y grŵp 90% o benderfyniadau creadigol ond erbyn y diwedd roddem yn brin o amser, felly roedd yn rhaid i rai penderfyniadau ynghylch yr arddangosfa gael eu gwneud gan dîm yr amgueddfa.
- Weithiau roedd yn anodd dod i benderfyniad unfrydol oherwydd y berthynas yn y grŵp.

Canlyniadau gwirioneddol

- Proffil mwy amrywiol o ymwelwyr a gwirfoddolwyr a ddaeth i ddiwrnodau meddiannu.
- Newidiadau cyfathrebu – mwy o bobl yn ymuno â'r cyfryngau cymdeithasol, llysgenhadon o'r gymuned i ledaenu gwybodaeth.
- Ymrwymiad wedi'i atgyfnerthu gan staff amgueddfeydd i ddarparu rhaglenni amrywiol, gan gynnwys cynigion i ysgolion, a pharhau â chyfarfodydd gwaddol.
- Mwy o hyder ar draws timau amgueddfeydd wrth weithio gyda chymunedau'r Mwyafrif Byd-eang.
- Perthynas gref gydag aelodau o'r gymuned Fangladeshaidd ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol. Er enghraifft, mae grŵp menywod bellach yn cyfarfod yn yr amgueddfa.

- Newidiadau o ran recriwtio – hepgor y gofyniad am radd ar gyfer swyddi arbenigol

Allbynnau gwirioneddol

- Arddangosfa estynedig dros saith mis – (Routes & Roots). Arwyddion a dehongli mewn iaith arall am y tro cyntaf.
- 2 Ddiwrnod Meddiannu – cynulleidfa o 1200, o'r Mwyafrif Byd-eang yn bennaf.
- 5 gwirfoddolwr newydd o'r gymuned Fangladeshaidd leol.
- Chwe stori lafar newydd gan y gymuned hyn sy'n helpu i fapio'r dreftadaeth gymunedol.
- 4 caffaeliad parhaol posibl.

Gwersi a ddysgwyd

- Cafodd y broses ymgeisio, contractio a recriwtio ei gwella ers prosiect blaenorol dan arweiniad y gymuned a bydd yn cael ei defnyddio yn y dyfodol. Bu aelodau o'r gymuned o brosiectau ymchwil blaenorol dan arweiniad y gymuned yn helpu i ddewis ymgeiswyr. Nid yw systemau ariannol traddodiadol wedi cael eu sefydlu i dalu i unigolion, felly cafodd cytundeb cymunedol newydd ei greu heb yr angen am PLI.
- Mae prosiectau llwyddiannus sy'n cael eu harwain gan y gymuned yn cymryd llawer mwy o amser na phrosiectau arferol – ymgorffori hynny mewn amserlenni. Roedd y gydnabyddiaeth i'r grŵp ar gyfer y prosiect yn dangos gwerth a gwerthfawrogiad, ond dim templed na chyllideb ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol gydag aelodau'r grŵp.
- Mae'n bwysig cael rheolwr lleoliad, staff curadurol, dysgu, marchnata, dylunio a FOH yn rhan o'r tîm ac yn bresennol mewn sesiynau ymgysylltu gyda'r grŵp i feithrin perthnasoedd ac ar gyfer gwaddol. Swydd dros dro oedd swydd y Cydlynnydd.
- Mae nodweddion unigryw bwysig – bwyd yn cael ei weini mewn sesiynau, dehongli yn eu geiriau ei hun, cyfarch mewn iaith arall, cyfieithu arwyddion, gwrandao ac amynedd a chefnogaeth yn ystod cyfnodau heriol fel terfysgoedd hid.

- Mae What's App yn adnodd gwych ar gyfer cyfathrebu â grwpiau.
- Roedd cynnal rhagolwg VIP ar gyfer yr arddangosfa, gwahodd cyfranogwyr i'r gynhadledd staff, a chymryd rhan mewn prosiectau eraill yn rhoi statws a gwerth i'r prosiect.
- Mae cyfleoedd i gynnwys a rhannu gwybodaeth â lleoliadau eraill yn hanfodol i symud ymlaen gyda strategaethau dadwladychu a gwrth-hiliol.

Y camau nesaf

Bydd y tîm yn SSMAG yn parhau â'r berthynas gyda'r gymuned Fangladeshaidd.

Mae'r prosiect EF yn defnyddio'r dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan y gymuned ar gyfer GNM: Hancock am flwyddyn er mwyn ail-ddychmygu oriel barhaol gyda chasgliad naturiol o hanes/gwyddorau a grŵp llywio cymunedol newydd.

Mae TWAM yn parhau i geisio gwreiddio ymarfer sy'n cael ei arwain gan y gymuned ar draws y sefydliad, gan gynnwys drwy weithio gydag arbenigwr sy'n canolbwyntio ar ddadwladychu ac ymarfer gwrth-orthrymol.

Delweddau drwy garedigrwydd Abdul Muquith – Arddangosfa a Diwrnod Meddiannu yn Amgueddfa ac Oriel Gelf South Shields

Mwy o Wybodaeth

Alina Trehwitt: Cydlynnydd y Prosiect, *Shared Stories*
alina.trehwitt@twmuseums.org.uk

Kylea Little: Ceidwad Hanes, Discovery Museum
Kylea.little@twmuseums.org.uk

Clare Smith: Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu
clare.smith@twmuseums.org.uk

Malavika Anderson: Rheolwr Lleoliad, GNM:H
malavika.anderson@twmuseums.org.uk

Adam Bell: Ceidwad Cynorthwyol, SSMAG
adam.bell@twmuseums.org.uk

Ysgol Gynradd Sgeti yn ymchwilio i 'Frwydr Abertawe'



Crynodeb

Tynnwyd sylw at archif yr Arglwydd Peter Hain fel archif bosibl y gellid ei defnyddio i ddysgu mwy am brotestiadau gwrth-apartheid a gynhaliwyd yn Abertawe yn 1969. Mae'r protestiadau'n cael eu galw'n 'Frwydr Abertawe' lle bu gwrthdaro treisgar rhwng protestwyr a'r heddlu cyn ac yn ystod gêm rygbi rhwng Abertawe a De Affrica.

Cefndir

Cefnogodd prosiect Cymunedau Cymru gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru 50 o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6 o Ysgol Gynradd Sgeti i ddysgu mwy am y digwyddiad hwn.

Her

I ddysgwyr gael gwell dealltwriaeth o gymuned, empathi, cwestiynu a herio, ac fel yr ysgrifennodd yr Arglwydd Hain yn ei ymateb i'w llythyrau 'ceisio gwneud y peth iawn bob amser hyd yn oed os mai dyma'r peth anoddaf'.

Dull

Cafodd y dysgwyr gyfle i bori drwy archif yr Arglwydd Peter Hain am brotestiadau gwrth-apartheid. Ymwelodd Ricardo Erasmus â'r ysgol i rannu ei brofiad o fyw yn Ne Affrica ac ystyr y gair Ubuntu. Yna, creodd y dysgwyr bosteri gwrth-apartheid/Ubuntu gydag artist lleol Sarah Hopkins yn seiliedig ar boster 'Racism is a Poison' Paul Peter Piech. Daeth Peter Hain ei hun i ymweld â'r ysgol i siarad am ei rôl yn y mudiad gwrth-apartheid gyda'r dysgwyr.

Canlyniadau arfaethedig

Nod y prosiect oedd dysgu am apartheid yn Ne Affrica, Nelson Mandela a'r mudiad Gwrth-Apartheid yng Nghymru. Bu i ymchwilio i ddiwyddiad lleol arwain at ddysgu mwy am bwnc rhyngwladol.

Allbynnau arfaethedig

Arddangosfa ac adnodd dysgu.

Rhwysterau a phroblemau

Caniatâd i ddefnyddio archifau a gwaith celf yn yr ystafell ddosbarth ac ar gyfer ein hadnodd dysgu oedd y prif fater. Rhoddodd ystâd Peter Hain a Paul Peter Piech eu caniatâd i ddefnyddio eitemau o'u harchif at ddibenion addysgol. Yna dewiswyd enghreifftiau addas o archif Peter Hain. Trefnwyd bod yr eitemau hyn yn cael eu digideiddio, ac anfonwyd copïau i'r ysgol.

Roedd dod o hyd i unigolyn â phrofiad bywyd o apartheid a allai

“Roedd cael cyfle i ymchwilio i sut roedd digwyddiad lleol yn helpu i arwain at newidiadau yn dod â'r ffordd y gall pwysau mewn gwahanol ffurfiau ddylanwadu ar benderfyniadau ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang yn fyw.

hefyd gyfathrebu'n effeithiol â phlant ysgol yn fater arall. Ar ôl ymchwilio, daethom ar draws Ricardo Erasmus, sy'n siaradwr ysgogol a ddaeth i mewn i rannu ei brofiad o fyw yn Ne Affrica. Sesiwn Ricardo oedd un o'r gweithdai cyntaf ac roedd yn bwysig dechrau'r prosiect yn y ffordd iawn, a chyflwynodd sesiwn ardderchog.

Roeddem hefyd yn ffodus bod yr athrawon roedden ni'n gweithio gyda nhw yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu o'r dechrau.

Canlyniadau gwirioneddol

Roedd effaith y prosiect ar y dysgwyr yn bellgyrhaeddol ac yn cwmpasu sawl agwedd ar draws y meysydd dysgu yn y cwricwlwm i Gymru yn ogystal â'r pedwar diben. Roedd cael cyfle i ymchwilio i sut roedd digwyddiad lleol yn helpu i arwain at newidiadau yn dod â'r ffordd y gall pwysau mewn gwahanol ffurfiau ddylanwadu ar benderfyniadau ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang yn fyw. Gall y pwnc ysgogi trafodaethau diddorol am gymdeithasau, agweddau a sut y gall gweithredoedd bach gael effaith gynyddol.

Allbynnau gwirioneddol

Mae adnodd addysgol am Frwydr Abertawe wedi cael ei lwytho i fyny i hwb.gov.wales ar gyfer ysgolion eraill i archwilio'r mudiad



gwrth-apartheid yng Nghymru a Brwydr Abertawe. Mae'r adnodd yn cynnwys enghreifftiau o archif Peter Hain, gwaith celf Paul Peter Piech, clipiau fideo o'r Archif Ddarlledu Genedlaethol, syniadau am weithgareddau ac astudiaeth achos o brosiect Ysgol Gynradd Sgeti.

Gwersi a ddysgwyd

- Mae cyfathrebu'n allweddol – o gysylltu â staff ysgolion a phartneriaid gweithdai i weinyddwyr ystadau.
- Seiliwch y prosiect ar eich archifau a'i adeiladu o'i gwmpas.
- Profiad byw – cafodd lleisiau pobl a oedd yn byw drwy brofiad effaith fawr.
- Rhowch gynnig arni – fe wnaethom wahodd Peter Hain i'r ysgol heb fawr o obaith ac fe ddaeth i'r ysgol.

Y camau nesaf

Mae'r adnodd dysgu ar-lein nawr ar Hwb a'n gwefan i ysgolion eraill ymchwilio i Frwydr Abertawe. Mae Ysgol Gynradd Sgeti hefyd wedi bod mewn cysylltiad i gael cymorth ar brosiect treftadaeth arall ers i'r prosiect ddod i ben.

Mwy o Wybodaeth

Ychwanegodd y ddau bartner allanol werth gwirioneddol i'r prosiect:

Paradigm Shift (Ricardo Erasmus)
paradigmshiftuk.com

Sarah Hopkins Art
sarah-hopkins.co.uk

Darllen pellach:
bbc.co.uk/news/uk-wales-50422755



Archwilio Arogl fel Ymarfer Dad-drefedigaethu yn The Courtauld



Crynodeb
Buom yn gweithio gyda'r persawrydd Sarah McCartney o 4160Tuesdays i greu arogleuon sy'n gysylltiedig â'r *Blwch Siwgr Siôr II* arian (1737-38) a oedd yn cael ei arddangos yn Oriol Courtauld, i archwilio hanesion trefedigaethol a herio gwaddol trefedigaethu. Mae arallgyfeirio'r straeon sy'n cael eu hadrodd drwy ein rhaglenni dysgu yn rhan o'n taith wrth-hiliol.

Cefndir
Yn The Courtauld, mae ein Grwpiau Gweithredu Dad-drefedigaethu wedi bod yn edrych ar sut y gallwn sicrhau mwy o gynhwysiant. Yn dilyn

trafodaeth ac ymgynghoriad gyda thîm yr oriel, gwirfoddolwyr, myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yn The Courtauld, dechreuodd y tîm Dysgu ymchwilio i wrthrychau yn y casgliad gyda'r nod o ddatgelu cysylltiadau trefedigaethol.

Roedd *Blwch Siwgr George II* yn un o'r gwrthrychau hyn. Fe'i cynlluniwyd gan Augustin Courtauld, un o hynafiaid Samuel Courtauld, un o sylfaenwyr The Courtauld. Mae sawl gwrthrych arian wedi'u creu gan deulu Courtauld sy'n cael eu harddangos yn yr oriel, fel rhan o arddangosfa amlwg yn ystafell Ewrop o'r 18fed ganrif. Yn y 18fed ganrif, cafodd y siwgr yn y blwch

siwgr ei fewnforio i Ewrop o'r Caribi, lle cafodd siwgr ei gynaeafu gan gaethweision o Affrica.

Her
Rhannu ein hymchwiliad ar hanes trefedigaethol y blwch siwgr drwy ein rhaglenni dysgu.

Dull
Buom yn gweithio gyda'r persawrydd Sarah McCartney i greu dau arogl a oedd yn archwilio'r llafur a oedd yn gysylltiedig â'r blwch siwgr: 'cynaeafu siwgr cansen' (dail wedi'u torri'n ffres, siwgr cansen a phridd cynnes), a 'gloywi llestri arian' (sudd lemon, dillad wedi'u gwisgo ac ystafelloedd gwaith). Datblygwyd y rhain i'w defnyddio yn ein Pac Cefn amlsynhwyrdd i'r Teulu, a sesiynau trin rhyngweithiol ar gyfer Ysgolion, Pobl Ifanc (16-18), a grwpiau Cymunedol. Rydym hefyd wedi creu adnodd digidol i athrawon sy'n canolbwyntio ar y blwch siwgr.

- Canlyniadau arfaethedig**
- Rhannu'r hanesion trefedigaethol sy'n gysylltiedig â *Blwch Siwgr George II* mewn ffordd hygyrch a dad-drefedigaethol.
 - Annog sgrysiâu am hanesion trefedigaethol a grymuso ein cynulleidfaoedd i rannu eu safbwyntiau.
 - Parhau â'n taith wrth-hiliol drwy arallgyfeirio ein rhaglenni Dysgu, gyda chefnogaeth ymgynghorwyr allanol, Jean Campbell a Meera Chauda.



- Allbynnau arfaethedig**
- Aroglau cysylltiedig â *Blwch Siwgr George II*.
 - Adnodd digidol i athrawon.

Rhwysterau a phroblemau
Yr ydym wedi defnyddio arogleuon yn yr oriel o'r blaen, felly, yr oeddem yn gwybod sut i'w rhannu (cerrig aromatherapi mewn tuniau) a bod hyn wedi gweithio'n dda. Mae'r tuniau'n gludadwy, ac maen nhw'n cynnwys arogl sy'n osgoi'r posibilrwydd y gallai arogl fod yn llethol mewn oriel.

Un pryder a gawsom oedd y gallai archwilio hanesion trefedigaethol drwy arogl eu bychanu. Fodd bynnag, rydym wedi canfod bod ymgysylltu â phynciau a allai fod yn anodd fel gwladychiaeth drwy arogl yn gwneud yr hanesion hyn yn fwy hygyrch ac ymgysylltiol i gynulleidfa ehangach. Mae arogl yn fan cychwyn diriaethol ar gyfer trafod yr hanesion hyn, gan ysgogi ymateb personol yn aml gan atgofion o'r arogleuon.

Canlyniadau gwirioneddol
Casglwyd adborth i'r arogleuon drwy holiadur. Casglwyd dau ymateb ar bymtheg mewn dwy awr:

- Roedd dros 80% yn cytuno bod "yr arogleuon [yn eu gwneud nhw] feddwl am y blwch siwgr mewn ffordd wahanol". Eglurodd ei fod yn gwneud i'r gwrthrych deimlo'n "fwy byw", "fwy real", ac yn "fwy o wrthrych deinamig/gweithredol".
- Atebodd 70% fod "y profiad hwn [wedi gwneud iddyn nhw fod] eisiau gwybod mwy am hanesion trefedigaethol mewn perthynas â siwgr".
- Roedd y sylwadau'n cynnwys "Ddim yn disgwyl rhywbeth fel hyn. Rhyngweithiol iawn" a "Fe wnes i fwynhau'r dimensiwn newydd hwn".

- Allbynnau gwirioneddol**
- Dau arogl cysylltiedig â Blwch Siwgr George II.
 - Roedd prosiect peilot gyda myfyrwyr Blwyddyn 8 yn Academi Merched Clapton, Hackney, yn canolbwyntio ar y blwch siwgr, gan ddefnyddio'r arogleuon a'r gweithgareddau creadigol. Arweiniodd hyn at fyfyrwyr yn cynhyrchu gwaith celf y byddwn yn ei rannu â'n cynulleidfaoedd ehangach. Roedd canlyniadau'r prosiect hwn yn bwydo'n uniongyrchol i'n gwaith o ddatblygu adnoddau.
 - Adnodd digidol i athrawon.

Gwersi a ddysgwyd

- Gall arogl fod yn ffordd bwerus o drafod hanes trefedigaethol yng nghyd-destun oriel, gall pobl gysylltu ag ef, ac mae'n ysgogi trafodaethau.

- Y tro diwethaf i ni greu arogleuon ar gyfer yr oriel roeddem yn gallu eu cyd-gynhyrchu gyda grŵp o Bobl Ifanc. Ar yr achlysur hwn, roedd y terfyn amser ar gyfer y prosiect yn golygu nad oedd hyn yn bosibl. Rhan o ymarfer dad-drefedigaethol yw ailddosbarthu pŵer, felly, yn ddelfrydol, byddem wedi dylunio'r arogleuon drwy gyd-gynhyrchu.

Y camau nesaf

- Parhau i gasglu adborth gan Ysgolion, Pobl Ifanc (16-18), Teuluoedd a Grwpiau Cymunedol sy'n ymgysylltu â'r arogleuon, er mwyn deall eu heffaith a'r ffyrdd y gallwn ddatblygu'r dull hwn.

- Cyhoeddi'r adnodd digidol i athrawon, a chynnal digwyddiadau i athrawon i archwilio sut y gellir integreiddio'r ymchwiliad a'r arogleuon yn eu cwricwlwm.
- Rhannu'r gweithiau celf sydd wedi cael eu creu gan fyfyrwyr gyda chynulleidfaoedd ehangach, drwy ap Bloomberg Connects.

“Gall arogl fod yn ffordd bwerus o drafod hanes trefedigaethol yng nghyd-destun oriel, gall pobl gysylltu ag ef, ac mae'n ysgogi trafodaethau.”

Mwy o Wybodaeth
Cafodd yr arogleuon eu creu gan **Sarah McCartney** o **4160Tuesdays**: 4160tuesdays.com
Mae'r adnodd wedi cael ei greu mewn ymgynghoriad â **Jean Campbell** a **Meera Chauda**. Bydd ar gael ar ein gwefan: courtauld.ac.uk/take-part/schools
Cysylltwch ag: education@courtauld.ac.uk



Defnyddio Addysg fel Sbardun ar gyfer Newid

Bodloni anghenion y Cwricwlwm i Gymru drwy Gasgliadau Amgueddfa Treftadaeth MonLife – #Cymru Wrth-hiliol



Crynodeb

Yn 2020, dyfarnwyd cyllid i Amgueddfeydd Treftadaeth MonLife gan Lywodraeth Cymru i gyfrannu at y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer prosiect i sicrhau bod hanes Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu adlewyrchu yn ein holl ddehongliadau a gweithgareddau. O'r cychwyn cyntaf, mae'r prosiect hwn wedi ceisio gweithio ar draws holl feysydd y gwasanaeth gyda'r nod o uno iaith yr amgueddfa a chreu adnoddau yn unol ag anghenion y Cwricwlwm newydd i Gymru. Byddwn yn defnyddio arddangosfa dros dro newydd yn Amgueddfa'r Fenni i ymgynghori

ag ysgolion lleol i helpu athrawon i gyflwyno 'Hanes Cynhwysol' fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Gan ddefnyddio'r cyfle i ddiweddar deunydd ffisegol a digidol, bydd adnoddau newydd yn cael eu creu ochr yn ochr ag arddangosfa blwyddyn o hyd i gefnogi athrawon yn eu gwaith ar wrth-hiliaeth.

Gallwn rannu hanesion aml-haenog a dweud y stori am sut y daeth eitemau moethus i fod yn eitemau cartref bob dydd yn y DU. Mae cymaint o amser wedi mynd heibio ers i'r eitemau hyn fod yn wrthrychau statws, mae'n hawdd anghofio'r gwirioneddau am eu cyflwyno i'r DU, ac mae hwn yn

gyfle i ddechrau dadwladychu'r cwricwlwm gan ddefnyddio gwrthrychau ein hamgueddfa. Yn ogystal, bydd y gwrthrychau a'u hanesion hefyd yn cael eu defnyddio fel pwyntiau trafod sy'n ymwneud â phryderon cyfoes sy'n ymwneud ag lechyd a Lles, Maes Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm newydd.

Byddwn yn creu dau flwch trafod ar gyfer ysgolion cynradd. Bydd pob blwch yn cynnwys eitemau sy'n adlewyrchu'r casgliad yn Nhreftadaeth MonLife, gan gynnwys replicas, propiau a gwrthrychau o gasgliad Basil Jones. Gan werthu cynnyrch yr ymerodraeth, cafodd y siop fwyd nodweddiadol hon ei hail-greu yn Amgueddfa'r Fenni. Bydd pob gwrthrych hefyd ar gael ar-lein fel delwedd eglur iawn ar gyfer ysgolion nad ydynt yn gallu dod i'r amgueddfa'n ffisegol. Bydd deunydd sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n annog plant i feddwl drostynt eu hunain yn galluogi athrawon i fod yn hyderus wrth rannu deunydd sy'n ateb cwestiynau y mae disgyblion yn eu gofyn am faterion cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ymerodraeth a masnach.

Mae rhannu gwrthrychau yn ein casgliadau drwy lens dysgu yn creu ffocws i feithrin trafodaethau agored a gonest, gyda meddyliau ifanc chwilfrydig ynghylch pynciau sy'n sail i'n cymdeithasau a'n cymunedau. Gofynnir i'r plant ddewis eu hoff wrthrychau, a'r rhai maen nhw'n meddwl sy'n adrodd y straeon yn well

i ymwelwyr yn y dyfodol, i ddysgu am y pwn maen nhw'n ei astudio. Rydym am gynnwys geiriau sy'n disgrifio pobl, lleoedd a gwrthrychau sy'n cyd-fynd ag iaith a gwerthoedd cyfoes. Gan weithio gydag athrawon, byddwn yn rhoi llais disgyblion a'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn ein horielau.

Meysydd gwaith

Mae'r prosiect Cymru Wrth-hiliol hwn yn adeiladu ar waith dadwladychu cynharach MonLife o amgylch gwrthrychau y nodwyd bod ganddynt gysylltiadau ag ymerodraeth, caethwasiaeth a masnach drawsiewerydd. Mae gwaith o amgylch y 'Gwrthrychau mewn Ffocws' hyn yn llywio ein polisi iaith ar gyfer deunydd digidol ac wedi'i argraffu. Bydd



“ Mae rhannu gwrthrychau yn ein casgliadau drwy lens dysgu yn creu ffocws i feithrin trafodaethau agored a gonest, gyda meddyliau ifanc chwilfrydig ynghylch pynciau sy'n sail i'n cymdeithasau a'n cymunedau.

gweithio yn y ffordd gydweithredol hon yn ehangu archwiliad a datblygiad presennol MonLife o'n 'Ymgynghoriadau Dinasyddion'.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

- Gweithio gydag arbenigwr allanol i greu ffyrdd o ymgorffori newid yn y cwricwlwm, sy'n cyd-fynd â gwerthoedd Dinasyddiaeth Prydain, drwy ddysgu a datblygu o amgylch Cynefin.
- Datblygu adnoddau (cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad) gan gynnwys blychau Cyflwyno – sy'n ymwneud ag lechyd a Lles. Bydd 'Hanes Afiach' yn canolbwyntio ar gyflwyno siwgr a thybaco drwy ymerodraeth,

a sut mae'r eitemau hyn, a ystyriwyd ar un adeg yn eitemau statws, wedi cyfrannu at broblemau iechyd presennol yn y DU.

- Bydd yr iaith a'r cynnwys a ddefnyddir yn adlewyrchu anghenion ysgolion Sir Fynwy yn bennaf, gan eu gosod fel y prif lais a'r brif gynulleidfa ar gyfer ein gwaith.
- Creu adnoddau digidol i sicrhau etifeddiaeth drwy ein harchif a'n gwefan ar-lein i hwyluso sesiynau i ysgolion nad ydynt yn gallu ymweld yn ffisegol.

Mwy o Wybodaeth

<https://www.monlife.co.uk/heritage>



Dyfodol/ Grym



Crynodeb

Ymatebodd Future/Power i arddangosfa Fitzwilliam *Black Atlantic: Power, People, Resistance*. Rhwng mis Medi 2023 a mis Mai 2024, roedd y prosiect yn edrych ar hanes trefedigaethol, hunaniaeth, ac effeithiau cyfoes y fasnach gaethweision drawsatlantig drwy fywyd Olaudah Equiano, awdur a arferai fod yn gaethwas, a setlodd ac a briododd yn Soham yn Swydd Caergrawnt.

Cefndir

Gyda'r nod o gysylltu â phobl ifanc 15 oed a hŷn, roedd Future/Power yn brosiect ar y cyd rhwng Amgueddfa Fitzwilliam, Coleg Pentref Soham, ac Amgueddfa X. Mae gan Fitzwilliam a'r ysgol berthynas hirsefydlog; dyma'r prosiect partneriaeth cyntaf i fynd i'r afael â chysylltiadau'r dref â gwladychiaeth ac yn daith a rennir.

Her

Sut gall ein sefydliadau hyrwyddo gwrth-hiliaeth yn gyfrifol ac yn deg? Mae ystadegau gweithlu Cyngor Celfyddydau Lloegr yn 2021 yn dangos bod amgueddfeydd yn parhau i fod ymhlith y gwaethaf yn y sector o ran cynhwysiant: dim ond 6% o weithwyr amgueddfeydd ym mhortffolio cenedlaethol ACE sy'n nodi eu bod yn 'Du, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig Amrywiol'. Mae dros 85% o athrawon yn y DU yn nodi eu bod yn Wyn Prydeinig. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod

myfyrwyr eisiau trafod hil yn yr ystafell ddosbarth, ond nad oes gan athrawon yr hyder i wneud hyn.

Dull

Gwnaethom ddefnyddio model ymarfer dan arweiniad cymheiriaid, gan sefydlu grŵp ieuencid creadigol o fewn strwythur yr ysgol. Gan enwi eu hunain yn @atlantic Xplorers, roedd 12 o bobl ifanc ym Mlynnyddoedd 9 a 10 wedi llunio cwestiynau ymchwil ar y cyd ac wedi cymryd rhan mewn ymweliadau ag amgueddfeydd a gweithdai wythnosol dan arweiniad artistiaid yn yr ysgol i archwilio gwaddolion trefedigaethol, gan arwain at berfformiad terfynol yn yr amgueddfa.

Canlyniadau arfaethedig

Mwy o weithredu a meddwl beirniadol ymysg pobl ifanc, gwell llythrennedd hiliol ymhlith athrawon, fframwaith newydd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Allbynnau arfaethedig

Grŵp ieuencid, agenda cyd-ymchwil a archwilir drwy arbrofi creadigol, perfformiad byw, arddangosfa gyhoeddus, ffilm fer, e-gyhoeddiad.

Rhwysterau a phroblemau

- Roedd yr amserlen rhwng cael cyllid a dechrau'r prosiect yn eithriadol o fyr felly cafodd y recriwtio ei ruthro – nid oedd gan fyfyrwyr wybodaeth am y prosiect.

“Profodd myfyrwyr gysylltiadau cymdeithasol cryfach, gwell dealltwriaeth o hanes Du Prydain, ac ymdeimlad o 'ddarlun ehangach', deallusrwydd emosiynol ac empathi.

- Nid oedd rhwydweithiau cymorth yn teimlo'n ddigonol i lywio'r elfennau cynnil a gododd, fel naratifau ystrydebol am gaethwasiaeth a theimladau o anghysur gan unigolion o liw oedd yn staff ar y prosiect.
- Diffyg nodau pendant, datblygiad proffesiynol strwythuredig ac arferion myfyriol ar gyfer athrawon wedi gwahau aliniad ag amcanion y prosiect.
- Amharwyd ar weithrediad yr ieuencid ar brydiau gan y ddynameg gonfensiynol rhwng athrawon a myfyrwyr.
- Roedd amwysedd ynghylch y cysyniad o 'lythrennedd hiliol'; byddai diffinio hyn ar y cyd o'r cychwyn cyntaf wedi gwella cyd-ddealltwriaeth.



Canlyniadau gwirioneddol

Profodd myfyrwyr gysylltiadau cymdeithasol cryfach, gwell dealltwriaeth o hanes Du Prydain, ac ymdeimlad o 'ddarlun ehangach', deallusrwydd emosiynol ac empathi. Soniodd athrawon am ddatblygiad pedagogaid, mwy o gymhellant i fod yn 'fwy dewr', cyd-destunau ar gyfer hyrwyddo gweithrediad ieuencid. Bu'r amgueddfa'n gweithio gydag artistiaid a'r ysgol mewn ffyrdd newydd gan nodi cyfyngiadau a chyfleoedd y model.

Allbynnau gwirioneddol

Grŵp ieuencid, perfformiad byw ac arddangosfa gyhoeddus yn yr Amgueddfa, ffilm fer, ac e-gyhoeddiad.

Gwersi a ddysgwyd

- Byddai cysylltiadau clir rhwng datblygiad gweithgareddau



creadigol a datblygiad y cynhyrchiad theatr ffisegol wedi gwella perchnogaeth y grŵp ar eu naratifau.

- Byddai cynnwys gwerthuswyr allanol o'r cychwyn yn gosod metrigau llwyddiant mwy cadarn fel bod yr effaith yn cael ei diffinio'n gliriach a'i mesur yn fwy effeithiol.
- Byddai ffurfioli mynediad at adnoddau, mentora sy'n ddiwylliannol sensitif a sefydlu gwerthusiad parhaus o fecanweithiau cymorth yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol a seicolegol.
- Ni fydd cynllunio ymlaen llaw yn ystyried myrdd o brofiadau unigryw a chynnil cyfranogwyr.
- Byddai dadansoddi hunaniaethau gwyn fel lluniad cymdeithasol a deall rôl gwynder o ran galluogi a chynnal hiliaeth yn helpu i ddatblygu dulliau gwrth-hiliol cadarn.
- Creu cyfleoedd parhaus i sefydliadau fyfyrion ar y cyd ar sut y gallwn wneud ein gwaith yn wrth-hiliol yn bwrpasol.

Y camau nesaf

Mae'r @atlantic Xplorers yn gweithio gyda'r amgueddfa i gyd-ddylunio gofod myfyrio ar gyfer arddangosfa arfaethedig Fitzwilliam, *Rise Up! Resistance, Revolution, Abolition* (agor

yn gynnar yn 2025), gan gynnwys cyfrannu at y rhaglen ddigwyddiadau a mecanweithiau ar gyfer casglu adborth gan gynulleidfaoedd.

Mwy o Wybodaeth

Carey Robinson

Dirprwy Gyfarwyddwr, Dysgu a Rhaglenni Cyhoeddus, Amgueddfa Fitzwilliam: ckr26@cam.ac.uk

Rosanna Evans

Cydymaith Dysgu: Ysgolion ac Athrawon, Amgueddfa Fitzwilliam: rfe22@cm.ac.uk

Relevant project links:

Dear Stephen: Race and Belonging 30 Years On (Runnymede Trust, 2023)

Framework for Developing an Anti-Racist Approach (Kebede, 2022)

Is Uni Racist? (BBC, 2021)

Race and Racism in English Secondary Schools (Runnymede Trust, 2020)

How to be an anti-racist educator (RSA, 2020)

The School That Tried To End Racism (Channel 4, 2020)

Education (Small Axe, 2020)

Teithiau Cefn Gwlad Trwy Brydain Drefedigaethol



Crynodeb

Mae *Ein Straeon Hynysol: Teithiau Cerdded Cefn Gwlad Trwy Brydain Wladol* (Penguin, 2024) yn llyfr sydd wedi'i anelu at gynulleidfa gyffredinol sy'n agor hanes ymerodrol Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n archwilio sut mae hanes cefn gwlad yn gysylltiedig â gwladychiaeth, gan gynnig persbectif hygyrch i ddarllenwyr sydd â diddordeb mewn deall yr hanes hwn.

Cefndir

Mae cynulleidfa'r llyfr hwn yn amrywiol: mae'n apelio at unrhyw un sydd am wybod sut mae cefn gwlad yn gysylltiedig ag ymerodraeth. Mae'n cynnwys sgysiaid am sut mae cefn gwlad yn cysylltu â hanes trefedigaethol a gall unrhyw un ei ddarllen, o aelod o grŵp cerddwyr Du i un o danysgrifwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Llyfr hanes yw hwn am hanes trefedigaethol cefn gwlad a'i effaith ar y dirwedd ac ar lafurwyr gwledig, ond dyma hefyd fy ymateb i ryfeloedd diwylliant. Roeddwn i eisiau archwilio'r pwnc sensitif hwn yn heddychlon drwy gerdded drwy rai o ardaloedd cefn gwlad mwyaf hyfryd Prydain, sydd wedi'u cyfleu yn rhannau mwy telynegol y llyfr hwn rhwng sgysiaid ysbrydoledig a gonest gyda'm cymdeithion cerdded.

Her

Mae hanes gwledig Prydain yn cael ei ystyried ar wahân i hanes trefedigaethol Prydain yn ddiethriad. Mae llafur amaethyddol, melinau cotwm Swydd Gaerhirfryn, cynhyrchu gwlan, cau tir a chloddio copr yn cael

eu cyflwyno fel hanesion domestig, lleol neu genedlaethol am bobl a lleoedd. Mae hyn ymhell o fod yn wir.

Dull

Drwy ysgrifennu am fyd natur a theithiau cerdded cefn gwlad, mae'r llyfr yn dangos sut mae hanes trefedigaethol gwlan, tybaco, siwgr, cotwm, copr ac opiwm wedi trawsnewid siroedd Prydain mewn ffordd unigryw. Gan gerdded gyda 10 o gymdeithion gyda chysylltiadau cyndadol i ymerodraeth, mae'r llyfr yn ystyried ystyron dynol yr hanes hwn. Gall pobl ddilyn y teithiau cerdded eu hunain, gan ddefnyddio mapiau a luniwyd yn y llyfr.

Bûm yn gyd-awdur archwiliad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o ymchwil academaidd gyhoeddus a adolygydd gan gymheiriaid, a oedd ar ffurf adroddiad ar gysylltiadau ei heiddo â gwladychiaeth a chaethwasiaeth hanesyddol.

Mae'r cyfraniad at adroddiad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn helpu i danlinellu'r cysylltiadau hyn, gan gynnig cipolwg ar yr angen i ystyried hanes trefedigaethol mewn manau cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nod y llyfr a gwaith parhaus yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw herio'r syniad o gefn gwlad cwbl ynysig ym Mhrydain ac annog dealltwriaeth ehangach a mwy cynhwysol o hanes Prydain. Gellir defnyddio'r gwaith hwn i wella adnoddau addysgol a theithiau cyhoeddus, gan ddangos sut mae

tirweddau ledled y DU yn cael eu nodweddau gan effaith barhaus gwladychiaeth.

Mae adroddiad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar wladychiaeth a chaethwasiaeth hanesyddol yn tynnu sylw at faint o eiddo yn ei gofal sy'n gysylltiedig â chyfoeth trefedigaethol, gan gynnwys y cyfoeth a gynhyrchwyd drwy'r fasnach mewn caethweision dros yr Iwerydd. Er enghraifft, roedd yr ystâd yn Trengwainton, a oedd unwaith yn eiddo i Syr Rose Price, wedi elwa'n uniongyrchol o lafur caethweision ar blanhigfeydd siwgr Jamaica. Roedd y bobl gaeth yn gweithio mewn rolau amrywiol, o lafurwyr ar blanhigfeydd i grefftwyr medrus, tra bod yr elw o'r llafur gorfodol hwn wedi ariannu datblygiad yr ystâd a'i gerddi. Mae'r agwedd hon ar ei hanes yn awr yn cael ei chynnwys yn safleoedd a deunyddiau addysgol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi bod yn diweddar ei chynnwys digidol i adlewyrchu'r hanesion hyn ac i gynnwys hanesion caethweision unigol a'r cysylltiadau rhwng caethwasiaeth hanesyddol a chyfoeth yr ystâd.

Canlyniadau arfaethedig

Mae'r llyfr hwn, y teithiau cerdded rwy'n eu harwain a'r deunyddiau addysgol rwy'n eu dylunio yn herio cyflwyniadau cul o gefn gwlad fel rhywbeth sy'n nodweddiadol Brydeinig neu'n bell o hanes ymerodrol Prydain. Y nod yw trawsnewid safbwyntiau cynhenid ac arferol am y Brydain wledig fel

“ Mae hanes gwledig Prydain yn cael ei ystyried ar wahân i hanes trefedigaethol Prydain yn ddiethriad.

un sydd â hanes ynysig, domestig a monoddiwyllianol.

Allbynnau arfaethedig

Nod y prosiect yw trawsnewid y ffordd y deallir hanes Prydain wledig drwy greu adnoddau addysgol sy'n helpu athrawon i integreiddio hanesion trefedigaethol diwydiannau gwledig i'w cwricwlwm. Bydd y deunyddiau hyn yn cefnogi addysgwyr hanes i fynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng ymerodraeth a hanes lleol, gan feithrin dull mwy cynhwysol o addysgu hanes Prydain.

Ar ben hynny, bydd teithiau hanes cyhoeddus y llyfr yn cael eu datblygu i fod yn deithiau hanes cyhoeddus drwy gefn gwlad, gan ddarparu ffordd ymarferol i gynulleidfa oedd ehangach ymgysylltu â'r hanes hwn. Bydd y teithiau hyn yn cynnig profiad hygyrch a hudolus, gan alluogi cyfranogwyr i gysylltu â'r gorffennol trefedigaethol drwy dirweddau cefn gwlad Prydain.

Rhwystrau a phroblemau

Y prif heriau oedd yr ymatebion negyddol gan rai sylwebyddion yn y cyfryngau a oedd yn camliwio safbwynt hanesyddol y llyfr.

Canlyniadau gwirioneddol

Mae *Our Island Stories: Country Walks Through Colonial Britain* wedi ennyn diddordeb nid yn unig ymysg darllenwyr, ond hefyd yn y maes hanes cyhoeddus ehangach, yn enwedig drwy deithiau cerdded hanes cyhoeddus. Mae'r teithiau cerdded hyn wedi bod yn boblogaidd ac wedi helpu i gysylltu hanes ymerodraeth



ag ardaloedd gwledig mewn ffyrdd sy'n ymgysylltu pobl y tu hwnt i'r cyd-destun academaidd. Mae ei thrafodaethau wedi cael sylw mewn cylchgronau cerdded, lle maent yn tynnu sylw at y croestoriadedd rhwng tirwedd a hanes trefedigaethol – gan bwysleisio ymhellach berthnasedd y gwaith hwn wrth addysgu cynulleidfa oedd ehangach.

Bydd yr allgymorth hwn yn trawsnewid cynnwys y llyfr yn adnodd addysgol a chymunedol ehangach, gan gyrraedd pobl mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol. Drwy rannu'r wybodaeth hon mewn fformatau hygyrch fel adnoddau athrawon a theithiau cyhoeddus, mae'r gwaith hwn yn dod yn sgwrs barhaus yn y byd cyhoeddus.

Allbynnau gwirioneddol

Deunyddiau addysgol ar gyfer athrawon ysgol sy'n dangos hanes ymerodraeth drwy ffocws hanes lleol, ar gais poblogaidd.

Gwersi a ddysgwyd

Mae llawer o ddiddordeb ym mhwn cefn gwlad ac ymerodraeth, gyda chynulleidfa oedd mawr yn mynychu digwyddiadau siarad ac yn anfon negeseuon e-bost am y llyfr.

Rhaid i chi fod yn barod i wthio'n ôl yn erbyn twyllwbyodaeth am hanes

gwladychiaeth gan wleidyddion, colofnwyr a dylanwadwyr.

Next steps

Bydd y prosiect yn parhau i ehangu, gyda theithiau hanes cyhoeddus mwy rheolaidd a'r posibilrwydd o rwydwaith o gydweithredwyr i rannu ac arwain y teithiau hyn. Bydd adnoddau addysgol yn cefnogi dealltwriaeth ehangach o ymerodraeth a'i heffaith ar gymunedau lleol.

Mwy o Wybodaeth

Corinne Fowler
penguin.co.uk/authors/289672/corinne-fowler

Adroddiad Mynd i'r afael â'n hanes o wladychiaeth a chaethwasiaeth hanesyddol (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol):
nationaltrust.org.uk/who-we-are/research/addressing-our-histories-of-colonialism-and-historic-slavery

Short guide to Colonial Countryside curriculum resources for teacher:
drive.google.com/drive/folders/1WLkEHYXYd_edozphfPf7O-eTTEexQrXOg



Dad-ddewis y Trywyddau:

Ail-edrych ar Waith Hanesyddol Arddangosiadau Peiriannau

Crynodeb

Nod y prosiect oedd creu arddangosiad peiriannau newydd sy'n tynnu sylw at naratifau byd-eang ac yn archwilio'r cysylltiadau rhwng Manceinion, cotwm a chaethwasiaeth.

Cefndir

Mae'r Amgueddfa Wyddoniaeth a Diwydiant ym Manceinion, sy'n rhan o'r Grŵp Amgueddfa Wyddoniaeth, wedi'i lleoli ar safle'r orsaf drenau hynaf i deithwyr yn y byd. Mae ein Oriel Tecstilau yn dangos yn fyw sut mae cotwm wedi trawsnewid Manceinion yn fetropolis prysur, gan siapio bywyddau yn lleol ac yn gyd-eang.

Her

Mae gan yr amgueddfa draddodiad hir o arddangos enghreifftiau o beirianneg arloesol a chysylltu ymwelwyr â chyd-destun hanesyddol y gwrthrychau hyn. Yn hanesyddol, mae arddangosiadau wedi tynnu sylw at agweddau technegol gweithgynhyrchu a bywyddau gweithwyr melinau Manceinion. Mae ymchwil fwy diweddar yr amgueddfa wedi ehangu i gynnwys safbwyntiau byd-eang, gan ein hysbrydoli i greu arddangosiad wedi'i lunio ar y cyd â grwpiau cymunedol i ddylanwadu ar ei ffurf a'i gynnwys.

Dull

Gan adeiladu ar Global Threads, partneriaeth yr amgueddfa â Chanolfan UCL ar gyfer Astudio Gwaddol Caethwasiaeth Prydain, gwnaethom greu cyfres o weithdai a gynlluniwyd i alluogi cyfranogwyr i archwilio'r naratifau byd-eang a helpu i lywio datblygu arddangosiad peirianwaith wedi'i hwyluso.

Canlyniadau arfaethedig

- Cydweithio â chymunedau o ddiddordeb a chymunedau hunaniaeth i adrodd straeon byd-eang sy'n mynd i'r afael yn agored â'r cysylltiadau rhwng diwydiant cotwm Manceinion a'r fasnach drawsiewerydd mewn caethweision o Affrica.
- Creu lle i ymwelwyr fyfyrto ar natur ddeuol y peiriannau hanesyddol hyn—fel campau peirianneg rhyfeddol ac fel symbolau o effaith ddynol fyd-eang.

Allbynnau arfaethedig

- Cyfres o weithdai gyda grŵp cymunedol yn archwilio naratifau byd-eang a fformatau newydd ar gyfer yr arddangosiad.
- Adnoddau hyfforddi a sript ar gyfer arddangosiad 20 munud o beiriannau tecstilau sy'n gallu cael eu rhedeg drwy gydol y dydd ar gyfer ymwelwyr.

Rhwystrau a phroblemau

Roedd sefydlu fformat ar gyfer y gweithdai cychwynnol a recriwtio cyfranogwyr yn heriol. Er ein bod yn ceisio cadw grŵp cyson o gyfranogwyr drwy gydol y prosiect i ddechrau, daeth yn amlwg yn fuan iawn bod angen mwy o amser i adeiladu'r rhwydweithiau angenrheidiol i gefnogi'r nod hwn.

Roedd datblygu deunyddiau hyfforddi ar gyfer y tîm Esbonio hefyd yn fwy cymhleth na'r disgwyl. Er bod gan y tîm brofiad o gyflwyno cysyniadau STEM manwl yn ein horielau, roedd yr arddangosiad hwn yn gofyn am ddull gweithredu gwahanol—gan ganiatáu lle i fyfyrto ar faes ymchwil sy'n esblygu'n barhaus.

Canlyniadau gwirioneddol

Mae'r arddangosiad dyddiol newydd yn yr Oriel Tecstilau yn sbarduno sgysiau rhwng staff ac ymwelwyr am effaith fyd-eang diwydiant cotwm Manceinion. Mae ymwelwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'w ddull adrodd straeon a'i lens fyd-eang.

I gefnogi'r tîm Esbonio, fe wnaethom ddatblygu deunyddiau hyfforddi wedi'u teilwra i natur unigryw'r arddangosiad. Ochr yn ochr â sript a manylion technegol, gwnaethom greu fideos ar gefndir yr arddangosiad a'i nawws gyffredinol i helpu'r tîm i hwyluso myfyrdod meddylgar ar y pwnc.

Allbynnau gwirioneddol

Yn hytrach na chydweithio ag un grŵp drwy gydol y broses o ddatblygu cynnwys, buom yn gweithio gyda dau grŵp. Roedd y gweithdai cychwynnol yn cynnwys staff a myfyrwyr o'r cwrs Dylunio Tecstilau yng Ngholeg Manceinion, a datblygwyd fersiwn terfynol yr arddangosiad gyda grŵp theatr cymunedol o'r enw Dominos and Dahlias, ac roeddem wedi cysylltu â'r ddau drwy ein rhaglen Partneriaethau Cymunedol.

Mae'r arddangosiad newydd yn defnyddio 'ail-edrych' a dad-ddysgu fel sylfaen iddo, gan symud yn ôl drwy'r broses gweithgynhyrchu tecstilau. Wrth iddo ddatgelu sut mae cotwm amrwd yn cael ei drawsnewid yn frethyn, mae'n tynnu sylw at straeon byd-eang a chysylltiadau Manceinion. Mae'r naratif yn tyfu'n fwy telynegol wrth iddo ddatblygu, wedi'i ysbrydoli gan fewnbwn ein partneriaid cymunedol.

Mae gweithgaredd cyn-arddangos yn gwahodd ymwelwyr i archwilio ffabrigau replica, gan eu cysylltu â'r patrymau a'r gweadau a gynhyrchwyd yn hanesyddol i'w hallforio.

Gwersi a ddysgwyl

Yn ogystal â'r pwyntiau ar gyfer myfyrio uchod, roeddem yn falch iawn o ddarganfod awydd i sgwrsio am naratifau byd-eang gan ymwelwyr a wylodd yr arddangosiad newydd.

Roeddem wedi ymgorffori adegau ar gyfer myfyrio a sgwrsio, ac roedd yn wych gweld bod 'eiliadau syfrdanol' i ymwelwyr yn gallu bod yn dawel ac yn fyfyrto, gan gael cymaint o effaith â rhai sy'n uchel ac yn feiddgar.

Y camau nesaf

- Mae'r arddangosiad newydd bellach yn cael ei gynnal yn ddyddiol, ac rydym yn casglu adborth gan ymwelwyr a'n tîm Esbonio ar ei effaith.



“ Mae ymchwil fwy diweddar yr amgueddfa wedi ehangu i gynnwys safbwyntiau byd-eang, gan ein hysbrydoli i greu arddangosiad wedi'i lunio ar y cyd â grwpiau cymunedol i ddylanwadu ar ei ffurf a'i gynnwys.

Mwy o Wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni

Chris Hill
Cynhyrchydd Ysgolion a Theuluoedd
chris.hill@scienceandindustrymuseum.org.uk

Gallwch ddarllen mwy am y gwaith ymchwil a phartneriaeth parhaus sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng Manceinion, Cotwm a Chaethwasiaeth ar ein gwefan. scienceandindustrymuseum.org.uk/manchestercottonandslavery

Creu Hyb ar gyfer Dysgu Gwrth-hiliol

Newid sefydliadol

Crynodeb

Mae'r adran Dysgu ac Ymgysylltu yn Amgueddfa Llundain wedi sefydlu *Hyb Dysgu Gwrth-hiliaeth* i roi'r wybodaeth, yr hyder a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar staff i roi gwrth-hiliaeth ar waith.

Cefndir

Yn 2021, datblygodd yr adran gynllun gweithredu gwrth-hiliaeth. Ysgogwyd hyn gan ddwy fenter bwysig. Yn gyntaf, creu tîm Ymgysylltu sydd â chylch gwaith i estyn allan at bobl sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli yn ein casgliadau a'r straeon rydym yn eu hadrodd, gan gynnwys trigolion Llundain o'r Mwyafrif Byd-eang, a gweithio gyda nhw. Ac yn ail, prosiect ymchwil gyda Chanolfan Ymchwil Prifysgol Caerlŷr ar gyfer Amgueddfeydd ac Oriolau, yn archwilio effaith gwynder wedi'i wreiddio yn ein hamgueddfa. Cafodd y cynllun ei ddiweddarau yn 2024 i adlewyrchu'r gwaith gwrth-hiliaeth ehangach sy'n digwydd ar draws y sefydliad.

Her

Fel adran o bobl wyn yn bennaf sy'n wynebu'r gynulleidfa mewn sefydliad gwyn yn bennaf, roeddem yn teimlo bod gennym gyfrifoldeb i herio hiliaeth mewn cymdeithas heddiw, ac yn hanes Llundain. Roeddem am chwarae ein rhan i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i'n gwneud yn amgueddfa fwy cynhwysol a theg.

Dull

Roedd ein cynllun yn cwmpasu amrywiaeth o fentrau adrannol gan gynnwys rhaglenni gwrth-hiliol amlwg i ysgolion a theuluoedd, canllaw i'r derminoleg rydym yn ei defnyddio yn ein gwaith, amrywio ein timau gweithwyr llawrydd/achlysurol, a siarter gofal i weithwyr llawrydd a allai brofi hiliaeth a gweithwyr achlysurol sy'n darparu rhaglenni gwrth-hiliol. Ond y pwysicaf, oherwydd ei fod yn sail i bopeth arall, oedd sefydlu fforwm adrannol – yr Hyb Dysgu Gwrth-hiliaeth – i feithrin gwybodaeth a hyder staff drwy gymorth gan gymheiriaid.

Canlyniadau arfaethedig

Sefydlwyd gweithgor i greu'r Hyb, gan gynnwys cynnal arolwg i ddarganfod beth oedd yr adran am ei gael ohono. Roedd cydweithwyr yn teimlo y dylai'r Hwb ddarparu lle diogel a chefnogol lle gallent rannu gwybodaeth, dealltwriaeth, syniadau, cwestiynau, pryderon ac anghysur, i'w helpu i fwrw ymlaen â'n gwaith gwrth-hiliaeth. Ni ragwelwyd ei fod yn gyfarfod gwneud penderfyniadau.

Allbynnau arfaethedig

Treuliwyd yr ychydig gyfarfodydd Hyb cyntaf yn cytuno ar werthoedd ac yn creu rheolau ymgysylltu. Roedd angen sawl fersiwn ar gyfer y rhain. I ddechrau, roedd agendâu'n llac ac yn canolbwyntio ar rannu profiadau, e.e. dysgu o gysiau hyfforddi, darllen ac ymweliadau â lleoliadau eraill.

Rhwystrau a phroblemau

Bu dwy her allweddol – galluogi trafodaethau rhwng cydweithwyr sydd â phrofiadau bywyd gwahanol iawn a lefelau o ddealltwriaeth a hyder; ac effaith trosiant staff ar gynnal ffocws a momentwm.

Canlyniadau gwirioneddol

Bu'r Hyb yn llwyddiannus o ran annog trafodaeth a chynyddu hyder, ond mae hefyd wedi dod yn ffordd hanfodol o fonitro cynnydd yn ein gwaith gwrth-hiliaeth, ac amlygu unrhyw arwyddion o wynder wedi'i wreiddio yn ein ffordd o feddwl. Rydym yn gweld ei fod yn cyfrannu fwyfwy at y broses o wneud penderfyniadau ynghylch prosiectau unigol a blaenoriaethau tymor hwy.

“Fel adran o bobl wyn yn bennaf sy'n wynebu'r gynulleidfa mewn sefydliad gwyn yn bennaf, roeddem yn teimlo bod gennym gyfrifoldeb i herio hiliaeth mewn cymdeithas heddiw, ac yn hanes Llundain.



Allbynnau gwirioneddol

Dros amser, mae ffocws cyfarfodydd wedi newid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am agweddau penodol ar ein gwaith gwrth-hiliaeth presennol a'r problemau mae cydweithwyr yn eu hwynebu, a gweithio gyda'n gilydd i ddatrys problemau a siapio'r camau nesaf.

Rydym hefyd wedi defnyddio'r Hyb i drafod sut gallai ein gwaith a'n cysylltiadau â chymunedau amrywiol Llundain ymateb i argyfyngau cenedlaethol a rhyngwladol fel y rhyfel yn Wcráin, y gwrthdaro rhwng Israel a Hamas a'r terfysgoedd hiliol yn y DU; a sut rydym yn defnyddio ein Adnodd ar gyfer Newid Diwylliant ar draws yr amgueddfa gyfan (set o gwestiynau i herio gwynder sydd wedi'i wreiddio yn ein gwaith bob dydd).

Gwersi a ddysgwyd

• Sefydlu grŵp bach i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros drefnu a chadeirio cyfarfodydd. Mae gennym hefyd hyrwyddwr ar lefel uwch reolwyr i arwain a chefnogi'r grŵp.

• Sicrhau bod amser i fynychu cyfarfodydd yn cael ei ddiogelu a bod gwaith gwrth-hiliaeth yn cael ei wreiddio mewn amcanion blynyddol a chynlluniau datblygiad proffesiynol.

• Cynnwys rôl y cyfarfodydd yn y broses o gynefino aelodau newydd o'r tîm.

• Gwneud presenoldeb yn wirfoddol. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i gydweithwyr o liw a allai deimlo'n anghyfforddus yn y gofod a/neu sy'n teimlo nad eu cyfrifoldeb nhw yw'r gwaith hwn.

• Rhannu'r agenda ymhell ymlaen llaw fel y gall pobl benderfynu a ydynt yn dymuno mynychu a pharatoi eu hunain, a pheidio cyflwyno eitemau newydd ar yr agenda mewn cyfarfodydd.

• Cytuno ar set o reolau ymgysylltu ac ailedrych ar y rhain ar ddechrau pob cyfarfod.

• Rhoi hierarchaethau i un ochr mewn cyfarfodydd Hyb a chreu a chynnal

diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn gallu siarad heb ofni cael eu beirniadu gan gydweithwyr uwch.

• Penderfynu ar gyfarfodydd rheolaidd sy'n gweithio i'ch tîm – rydym yn eu cynnal bob chwarter.

• Caniatáu amser i fyfyrion ar ddiwedd cyfarfodydd. Mae ein cyfarfodydd yn para awr a hanner gyda 30 munud ychwanegol ar gyfer myfyrion.

Y camau nesaf

Hoffem wneud mwy fel grŵp i rannu profiadau gyda chymheiriaid mewn sefydliadau diwylliannol eraill a dysgu ganddynt drwy eu gwahodd i gyfarfodydd Hyb, a thrwy drefnu ymweliadau astudiaeth grŵp i weld arferion gorau gwrth-hiliaeth mewn manau eraill. Rydym hefyd yn awyddus i rannu model yr Hyb yn fewnol ag adrannau eraill.

Mwy o Wybodaeth

Cysylltwch ag **Alex Noble**
anoble@londonmuseum.org.uk

Creu Amgylchedd Croesawgar yng Nghanolfan Dylan Thomas

Rhoi croeso i ymwelwyr



Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon yn tynnu sylw at ymyriadau ymarferol, cost isel i greu amgylchedd mwy cynhwysol a hygyrch yng Nghanolfan Dylan Thomas. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys gwella arwyddion gyda chymorth gan fentrau gwrth-hiliol, diweddar dehongli drwy adolygu casgliadau a gwreiddio lleisiau amrywiol mewn gweithdai ysgrifennu creadigol. Mae Canolfan Dylan Thomas hefyd yn gweithio gyda phartneriaid cymunedol i sicrhau ymgynghori a chynrychiolaeth barhaus.

Cefndir

Mae Canolfan Dylan Thomas yn Abertawe yn gartref i amgueddfa a chanolfan lenyddiaeth sy'n cael ei rhedeg gan yr awdurdod lleol. Mae ein harddangosfa barhaol, ddi-dâl, 'Caru'r Geiriau', yn archwilio bywyd, gwaith a chyd-destun diwylliannol yr awdur a aned yn Abertawe (1914-1953), ac fe'i cefnogir gan ardal arddangos dros dro, gofod dysgu, a rhaglen o weithgareddau ymgysylltu creadigol. Oherwydd arwyddocâd Dylan Thomas, a'r ffaith bod ei waith wedi cael ei gyfieithu i dros 30 o ieithoedd

gwahanol, rydym yn croesawu miloedd o ymwelwyr o bob cwr o'r byd bob blwyddyn, ac rydym yn ganolfan a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer arbenigedd Dylan Thomas.

Mae ein hamgueddfa ar agor bum diwrnod yr wythnos drwy gydol y flwyddyn. Dim ond 2.8 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn sydd gennym i weithredu'r lleoliad, curadu'r arddangosfeydd, a chynnal ein rhaglenni dysgu. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu lle cynnes a chroesawgar lle mae pawb yn teimlo'n gyfforddus. Ein her yw sut i weithredu a gwreiddio newid ystyrlon heb fawr o gyllideb ac ychydig o staff, ac mae'r astudiaeth achos hon yn rhannu rhai ymyriadau cost isel a chyraeddadwy sydd wedi gwneud gwahaniaeth.

Her

Fel amgueddfa sy'n cael ei rhedeg gan yr awdurdod lleol, rhaid iddi gydbwysu ei hymrwymiad i hygyrchedd a chynrychiolaeth â chyfyngiadau gweithredol, gan fynd i'r afael â bylchau mewn dehongli, ymgysylltu a chynrychiolaeth o fewn ei chynigion parhaol a dros dro. Mae'r prosiect yn ceisio goresgyn y rhwystrau hyn drwy ymyriadau cynaliadwy, cost isel sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn i bob ymwelydd, yn enwedig mewn cyd-destun aml-ddiwylliannol a rhyngwladol.

Dull Croeso

Rydym ni wedi cynnal archwiliad sylfaenol o'r safle i asesu arwyddion,

labeli, paneli dehongli ac arddangosfeydd cyhoeddus. Fel Amgueddfa Cymreig, rydym wedi elwa o hyfforddiant GEM am ddim. Mae'r prosiect Amgueddfeydd, Casgliadau a Chynefin – Cyflawni Etifeddiaeth Barhaol, dan arweiniad Dr Marian Gwyn ac ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy ei hymrwymiad i gyflawni ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP) wedi bod yn amhrisiadwy. Tynnodd sylw at y ffaith y gall hyd yn oed arwyddion 'Mae Croeso i Bawb Yma' wneud gwahaniaeth go iawn i brofiad yr ymwelydd. Rydym yn pwysleisio hyn gyda sticeri ffenestr am ddim o gangen Dinas Noddfa Abertawe. Mae staff CoS wedi darparu hyfforddiant Croeso i Ffoaduriaid am ddim i'r holl staff, ac mae rhagor o hyfforddiant ar-lein ar gael. Mae hyn yn meithrin hyder staff ac yn dod â gwahanol leisiau a safbwyntiau i mewn.

Casgliad

Diolch i ARWAP, cawsom adolygiad arbenigol o'n Casgliad i nodi eitemau dadleuol, ac yna hyfforddiant wyneb yn wyneb i'r holl staff ystyried ffyrdd gwell o'u dehongli. Mae gennym gasgliad cymharol fodern, ond ceir eitemau sy'n ymwneud â sidan a thybaco a fyddai'n elwa o ailddehongliad. Gan mai arddangosfa barhaol yw ein prif ardal, a bod y gyllideb yn broblem, prin yw'r cyfleoedd i ddylunio paneli dehongli newydd. Fodd bynnag, mae'r ymchwil hon a mwy o ymwybyddiaeth yn golygu y gallwn ysgrifennu blogiau ar gyfer y wefan, cynllunio dehongliad newydd ar gyfer arddangosfeydd dros dro a deunyddiau dysgu, a thrafod straeon am wrthrychau yn ystod teithiau tywys a sesiynau dysgu.

Canlyniadau arfaethedig

Nod ein rhaglenni dysgu yw helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau creadigol a beirniadol sydd eu hangen i lywio drwy fyd cymhleth.

